# ECO'R WYDDFA

RHIF 29 MEDI 1978 Pris:10c

## ANGEN AM WELL CYNLLUNIO

**Mae Cwmni CLOGWYN CLIMBING GEAR yn bwriadu adeiladu ffatri newydd yn ardal Deiniolen. Mae safle presennol y cwmni hwn, sy'n cynhyrchu offer dringo, yng Nglandinorwig, Clwt-y-bont. Y tri phrif leoliad sy'n cael eu hystyried gan y cwmni yw'r tir rhwng Pentre Helen a Chapel Disgwylfa a dau gae dan y ffordd rhwng Tan y Weirglodd a Chapel Ysgoldy. Mae cais y cwmni i godi ffatri eisoes yn nwylo Adran Gynllunio Cyngor Arfon. Bydd y pwyllgor cynllunio yn trafod y cais hwn ar Fedi 6.**

Ar hyn o bryd cyflogir 48 o weithwyr gan Clogwyn Climbing Gear ac yn ôl y cwmni, byddant angen o leiaf 22 o weithwyr ychwanegol yn eu datblygiad newydd. **Yn wyneb y ffaith fod diweithdra yn y wlad hon yn uwch nawr nag a fu ers deugain mlynedd mae clywed am gymaint a hyn o swyddi newydd yn rhywbeth i'w groesawu yn enwedig mewn ardal fel bro'r Eco sydd wedi dioddef cyhyd o effeithiau diffyg gwaith. Yn ddiamau, mae'r gymdeithas gyfan yng nghylch Deiniolen yn croesawu'r posibilrwydd o swyddi newydd yn eu cynefin.**

Mae trigolion Clwt-y-bont isaf yr un mor ddiffuant eu croeso i'r posibilrwydd o waith ychwanegol yng nghylch Deiniolen ond maent yn gwrthwynebu lleoli ffatri 15,000 troedfedd sgwâr ar garreg eu drws, fel petai. Mae bron bob oedolyn sydd â'i gartref o fewn golwg y ffatri arfaethedig yn gwrthwynebu. Anfonwyd llythyrau unigol ac un llythyr-ar-y-cyd i brotestio i Gyngor Arfon ynglyn a lleoliad posib y ffatri. Arwyddwyd y cyd-lythyr gan 43 o oedolion sydd â'u cartrefi o fewn tafliad carreg i leoliad y ffatri newydd.

Sail eu gwrthwynebiad yw eu cred y buasai'r ffatri yn hagru a llygru (o safbwynt sŵn yn bennaf) y gymdogaeth ac y buasai'n golygu cynnydd mewn trafnidiaeth ar ffordd sydd eisoes yn anaddas a pheryglus. Dywedwyd wrth ohebwyr yr Eco fod, erbyn hyn, yn y gymdogaeth nifer o deuluoedd a phlant ifanc ac mae'n hawdd deall eu pryder am eu diogelwch. Ar ben hyn, y teimlad cyffredinol ymysg y gwrthwynebwyr yw y bydd eu tai yn colli eu gwerth ac i lawer o'r trigolion buasai'r datblygiad newydd yn dad-wneud blynyddoedd o waith ac ymdrech i wella eu cartrefi.

O safbwynt Clogwyn Climbing Gear mae'r tri lleoliad a nodwyd yn ateb eu gofynion hwy, sef "(a) safle sydd yn 1½ erw gweddol wastad a sych ac ar fin ffordd," a (b) safle sydd "o fewn pellter cerdded o Ddeiniolen." Yn ôl ystadegau'r cwmni, mae 35 allan o'r 48 o'u gweithwyr yn byw o fewn milltir i'r gwaith presennol. Cynhaliwyd cyfarfod yn y ffatri a phleidleisiodd 42 ohonynt dros i'r ffatri newydd fod o fewn "pellter cerdded rhesymol o Ddeiniolen". Felly, yn ôl y cwmni, y tri lleoliad yng Nghlwt-y-bont yw'r unig rai y gallant hwy ddod o hyd iddynt, o blith y nifer y maent wedi edrych arnynt, sy'n ateb y gofynion uchod.

Dyma enghraifft o wrthdaro rhwng buddiannau trigolion cymdogaeth neilltuol ar y naill law a buddiannau cwmni diwydiannol ar y llall. Tybed a yw'r gwrthdaro yma'n anorfod? Nid oes unrhyw amheuaeth fod y gymdeithas gyfan yn yr ardal hon yn awyddus i sicrhau gwaith i'n pobl ond ar y llaw arall, faint ohonom allasai ddweud yn onest y buasem yn croesawu ffatri ar garreg ein drws?

Corff democrataidd wedi ei ethol gan y gymdeithas ddylai fod â'r grym a'r adnoddau i gynllunio datblygiad diwydiannol. Oni ddylai'r Cyngor Sir a Chyngor Arfon fod â chynllun cynhwysfawr fuasai'n golygu y medrent gynnig safleoedd addas i ffatrioedd yn agos at bentrefi'r fro? Onid corff etholedig megis y cyngor lleol ddylai fod â'r pŵer i gyfeirio cwmnïau preifat i lefydd wedi eu darparu'n bwrpasol – llefydd lle nad oes nemor ddim cartrefi i darfu arnynt? Yn sicr, mae angen y math yma o ddatblygiad yn, neu'n agos at ein pentrefi. Nid gwaith cwmni preifat felly fuasai gorfod mynd ati i benderfynu ar safle neu i chwilio am safle ar eu liwt eu hunain. Pe buasai cynllunio effeithiol o'r fath yn digwydd byddem, i raddau helaeth, yn osgoi y math o wrthdaro sydd wedi ei amlygu'i hun yng Nghlwt-y-bont.

## ENILLWYR CAERDYDD



*Côr Genethod Llanberis a ddaeth yn llwyddiannus mewn dwy gystadleuaeth. Daeth y côr dan 15 oed, dan arweiniad Nia Brian Jones, yn ail yn eu hadran ac yn y gystadleuaeth i gorau dan 19 oed hwy ddaeth i'r brig gan ennill cwpan R.O.Jones, Pwllheli gyda chanmoliaeth uchel iawn. Eu harweinydd yw Pauline Williams ac Annette Bryn Roberts o Ddinorwig sy'n cyfeilio. Mae'r côr hwn a ffurfiwyd fis Hydref diwethaf yn cael ei hyfforddi gan Miss Clarice Williams, sy' bellach yn enwog fel hyfforddwraig corau plant llwyddiannus. O dan ei gofal hi bu corau plant Llanberis yn fuddugol mewn Eisteddfodau Cenedlaethol rhwng 1960 a 1967. Tybed a yw Miss Williams yn ailsefydlu traddodiad? Bydd yn rhaid dal gafael ar y gwpan yn Eisteddfod Caernarfon y flwyddyn nesaf!*



*Llongyfarchiadau gwresog i Rhian Owen, Stryd Siarlot, Llanberis, a ddaeth yn gyd-fuddugol ar yr unawd i ferched rhwng 12 a 15 oed. Mae Rhian hefyd yn aelod o'r côr genethod buddugol.*



*Llongyfarchiadau i John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug. Ei delyneg ef ar y testun 'Y Graith' oedd yr orau o blith 54 o gynigion. Beirniad y gystadleuaeth oedd y Parch. Eirian Davies. Gobeithir cyhoeddi'r gerdd yn y rhifyn nesaf.*

## Cynrychioli'r ECO



*Dafydd Wyn Evans, y Golygydd Chwaraeon, a Dafydd Whiteside Thomas o Lanrug, un o'n cyfranwyr erthyglau mwyaf selog, a fu'n cynrychioli'r Eco ar y rhaglen deledu 'Pawb yn ei Fro'.*
*Rhwng y ddau Ddafydd yn y llun y mae Charles Williams, y gŵr gwadd.*
*Llongyfarchiadau i'r hogia ar guro tîm 'Y Tincer'.*
*(Llun trwy garedigrwydd y BBC)*




*ar y dde:*
*Un o hogia Ben Nevis yng Ngharnifal Llanbêr!*

# ECO'R WYDDFA

RHIF 29 MEDI 1978

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 3577)

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST :** Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd


BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Mrs. Gwyneth Chick, 1 Tan y Bryn, Cwm-y-glo.
DEINIOLEN: Gwyndaf Roberts, 8 Ffordd y Gogledd (Llanberis 427)
DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)
TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)



**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus**
**Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta**
**Archebion ar gyfer y rhewgist**
**MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!**


## LLANBERIS STRING BAND

gan Mrs M.G.HUGHES, Llanberis



Ym meddiant Mrs. Annie Davies, Gwenfro, 'roedd blwch casglu derw bychan, un cywrain iawn, a ac ar ei glawr y geiriau "In Aid of Llanberis String Band". 'Chlywais i erioed am y "String Band" ond yn hen gyfarwydd â'r Seindorf Bres. Cododd rhyw awydd arnaf i roi hanes yr hen focs bach. Euthum at rai o drigolion hynaf yr ardal i holi, a mawr yw fy niolch i Mr. Michael Pritchard, Stryd Capel Coch, Mrs. Martin Owen, Stryd Newton, Miss Nell Davies, Stryd Siarlot a Mrs. Maggie Williams, Creigwel am eu gwybodaeth. I Mrs. Betty Rees Evans, Rhes Min Afon y mae'r diolch am y llun yma o'r gerddorfa.

Cychwynnwyd y gerddorfa ychydig cyn 1902, a byddai Mr. Symonds, a oedd yn ddyn tynnu lluniau yn y cylch, yn eu cyfarwyddo yn y stiwdio tu ôl i'r siop Fern Bank, " ac un strict oedd o hefyd," meddai Mrs. Martin Owen. Yn ddiweddarach, cafwyd Capel Coch yn ganolfan i'r gerddorfa a John Brwynog Jones yn arwain, gyda Griffith Davies, tad Miss Nell Davies, yn cyfeilio ar y piano. Darnau clasurol a berfformid, a hynny unwaith y flwyddyn yn y "Concert Hall"(yr hen sinema). Byddai'r adeilad yn orlawn bob amser, a dyna lle byddai'r bocs bach casglu yn dod i'w fri.

Cododd John Brwynog Jones gor cymysg yr un adeg, a'r gerddorfa yn cyfeilio i'r côr. Roedd Miss Nell Davies yn gallu enwi'r darnau clasurol a'r operâu a berfformiwyd. Yn ystod gyrfa'r gerddorfa aeth Martin Owen i berthyn iddo gyda'r ffidl a hefyd John Davies, priod Mrs. Annie Davies.

Wel, beth am enwau'r rhai sydd yn y darlun?

Wrth ddrws y ficerdy : (o'r chwith i'r dde) : Y Parch. J. Richards, Capel Coch; E. P. Thomas, y person plwyf; Huws Drygist, Capel y Bedyddwyr.

Rhes 1: Griffith Gwynedd Hughes; Tom Williams, Warden St.; Symonds y dyn tynnu lluniau; Willie Williams, Plas Coch; Morris Roberts, brawd Brymer Roberts; Hugh Thomas Williams, brawd Tom Williams; Griffith Davies, tad Miss Nell Davies; Roderick Williams, brawd Tom a Hugh Thomas Williams; W. R. Jones, brawd Tomi a Bryniog Jones; John Michael Evans, Mefakin; Ivor Davies, mab Ismael Davies, athro yn Llandudno.

Yr ail res (yn eistedd): Edward Jones (Ned Bach Brynteg); Alfie Woolford; Humphreys y Band, cyfarwyddwr y Band lleol; Dr. Lloyd Williams; John Brwynog Jones; Ifor Jones, brawd Brwynog Jones a W. R. Jones; John Hughes, Ty Coed; Willie Sadlar neu Willie'r Iard (sadlar o Gaernarfon oedd yn gweithio yn iard y chwarel).

Y merched: Drucie Clee o Ben y Gwryd; mab bach Mr. Symonds, – D.C.Symonds a oedd yn cael ei alw'n D.C.; Hettie Hume; Sydney Hughes, Snowdon View; Janet Evans, Gelli-hirbant; Mrs Ivor Davies, gwraig Ivor Davies yr athro.

Byddai'n ddifyr pe bai rhagor o hanes y gerddorfa'n dod i law, a gresyn na fyddai rhywbeth tebyg gennym yma heddiw. Diolch fod gennym Seindorf Arian a Chôr Plant i gadw'r traddodiad cerddorol ymlaen.


**E.W.&M.WILLIAMS**



**Y BECWS**
**DEINIOLEN**
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN**


## O'R GENEDLAETHOL

Y mae dau bentref eisoes wedi cyrraedd eu nod ariannol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979, a hynny cyn i'r Eisteddfod gael ei chyhoeddi yn y dref.

Y ddau bentref yw NANT PERIS, a gasglodd £300, gan gychwyn gydag arian a oedd yn weddill ar ôl Eisteddfod Caernarfon 1959, a BETWS GARMON, a gasglodd £250 ac a gyflwynodd siec i'r Eisteddfod ddydd Mercher cyn y cyhoeddi.

## Y GADAIR

Y gŵr a luniodd Bulpud Coffa Goronwy Owen yn Eglwys Llanfair Mathafarn Eithaf, Môn, a ddewiswyd i lunio Cadair Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon y flwyddyn nesaf. Yr un gŵr ag a luniodd y Gadair y tro diwethaf yr ymwelodd yr Eisteddfod â'r dref ym 1959

Rhoddir y Gadair gan gynglerc hen Gyngor Sir Caernarfon, J. Eryl Owen-Jones, ac yn ddiddorol iawn, ewythr iddo ef, Mr Henry Humphreys Jones a roddodd y Goron ym 1959. Mr Owen-Jones oedd Llywydd y Pwyllgor Gwaith y flwyddyn honno.

Pennaeth Adran Dechnegol Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch yw Mr Gwyn Hughes gwneuthurwr y Gadair ac ef hefyd yw Prif Arholwr Crefft a Chynllunwaith Cyd Bwyllgor Addysg Cymru.

Bu'n feirniad yn adran Celf a Chrefft y Genedlaethol sawl gwaith gan gynnwys Caerdydd eleni.

Enillwyd y Gadair a wnaeth ym 1959 gan y Prifardd T. Llew Jones ac enillydd un arall o'i gadeiriau yw'r Prifardd Gwilym R. Tilsley.

Rhagwelir y bydd y Gadair yng Nghaernarfon yn un go arbennig, wedi ei cherfio o dderw gydag addurniadau arian iddi yn ychwanegu at ei gwerth a'i harbenigrwydd.

## PICIWCH I MEWN

Os ydych am bicio draw i'r Dre yn ystod y mis galwch i mewn i Oriel Pendeitsh (tros y ffordd i fynedfa'r Castell) i weld arddangosfa 'Galwad y Mynydd'. Arddangosfa yw hon ar fynydda yng Nghymru a sut y cyfrannodd Cymry at ei ddatblygiad yma ac mewn rhannau eraill o'r byd. Cynhelir yr arddangosfa gan Wasanaeth Archifau Gwynedd.

# CYFOETH DDOE

Gan GLYN THOMAS

**Yn ôl pob tebyg, mae'n siŵr y bydd sawl un a fu mor ffodus ag ymweld a'r Arddangosfa a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymdeithasol Dinorwig yn niwedd Gorffennaf yn fwy gofalus o hyn ymlaen wrth fynd ati i wneud y 'spring-clinio' blynyddol. Nid oes amheuaeth nad yw sawl un ohonom wedi bod yn euog yn y gorffennol o daflu hyn a'r llall heb sylweddoli eu gwerth ar y pryd. Dyna a feddyliai llawer un wrth dreulio awr neu ddwy ddifyr yn edrych ar gynnyrch hen a newydd a gasglwyd ynghyd ar gyfer yr Arddangosfa.**

"Nid oes dim newydd dan yr haul", medd awdur llyfr y Pregethwr. Daeth hyn yn fyw i'm meddwl wrth graffu yn fanwl ar gerdyn aelodaeth Cymdeithas Lenyddol Undebol Dinorwig, Fachwen, Sardis a St. Mair am y tymor 1919-20. Cymdeithas oedd hon yn dwyn ei chynrychiolwyr o wahanol enwadau'r fro. Dim byd newydd, meddech chwi. Eto i gyd, edrychwch yn fanwl ar y testunau hyn:

Tachwedd 11: Papur: Ymreolaeth i Gymru. Mr. Robert Jones, Saron.
Tachwedd 18: Dadl: Cenedlaetholi. Mr. Jones, School House, Mr. J.M.Parry, Fachwen.
Chwefror 3: Papur: Manteision a datblygiad Undebau Llafur i ni fel gweithwyr. Mr. H.M.Hughes, Bryn Hyfryd.

Pynciau trafod dros hanner can mlynedd yn ôl ond eto, cyfoes eu hapêl i ni heddiw. Ffaith arall ddiddorol yw fod y cyfan o raglen y Gymdeithas yn dwyn ei chyfranwyr o'r fro ei hun. Tybed faint o Gymdeithasau a all ymhyfrydu yn hyn o beth erbyn hyn? Dyma enwau rhai ohonynt:

Rhagfyr 23: Adgofion o Germany Mr. Robert Thomas, Bwlch Gwynt.
Adgofion o Bulgaria. Mr. Jeremiah Evans, Tan y Garret.
Chwefror 10: Papur: Gyda'r Cerddorion. Mr. John P. Morris, Foel.
Chwefror 17: 'Noson gyda'r Beirdd'. Mr. W.H.Davies, Ty'n-y-Fawnog.
Rhagfyr 17: 'Noson gyda'r Emynwyr'. Mr. J.J.Roberts, Terfyn.

Er nad yw Eisteddfodau mor lluosog yn ein bröydd erbyn hyn mae ein gorffennol yn gyfoethog iawn yn y maes yma. Un o'r Eisteddfodau hynny oedd Eisteddfod Plant a Phobl Ieuainc Dinorwic/Sardis yr arferid ei chynnal yng Nghapel Dinorwig. Cymerwch fel enghraifft restr testunau yr Eisteddfod honno am y flwyddyn 1922 – Rhagfyr 1af & 2il. Dau ddiwrnod o wledd ddiwylliannol. Yr ysgrifenyddion ar y pryd oedd Mr. Myrddin Jones Parry, Llidiart y Clo a Mr. Ivor Jones, Ty'n Fawnog, Dinorwig. Beth am yr Eisteddfod ei hun? Dyma'r cystadlaethau, maent yn werth eu rhestru: cerddoriaeth, adroddiadau, adroddiadau rhydd i'r cylch; llenyddiaeth; arholiadau; arholiadau ysgrifenedig (ar faes llafur yr Ysgol Sul); arholiad llafaredig; gwniadwaith, a chelfyddyd y meibion. Dim byd arbennig, meddech chwi, ond beth am sylwi yn fwy manwl ar un neu ddau ohonynt. Dyna i chi yr arholiad llafaredig er enghraifft. Byddai darllen y testunau yn yr adran yma yn ddychryn i sawl un heddiw. Dyna i chi'r gystadleuaeth i rai dan 18oed, sef dysgu allan Actau, Pennod 3 ac Emyn 252 o lyfr M.C. Dysgu pennod gyfan ac emyn? Yna, dyna i chi'r gystadleuaeth Celfyddyd y Meibion. Gwobr o 10/6 am ffon ddraenen ddu orau, a gwobr o 10/- am ffon gollen orau.

Tra'n sôn am Eisteddfota, diddorol oedd y llun o gadair Eisteddfod Gadeiriol Dinorwic 1938. Y gadair wedi ei gwneud gan Mr. R. Llew Griffith, Dinorwic Cottage a'r enillydd am y flwyddyn honno oedd Herman Jones o Glwt y Bont.

Er yr holl ddyfalu a fu yn ystod yr Arddangosfa, ni lwyddodd mab y diweddar Mr. J.R.Griffiths, Ty'n y Bigil i ddatrys un o ddirgelion ei dad, sef hanes y llif ryfeddol honno a dyrchwyd o dir ei gartref. Dyma'r cefndir fel yr ymddangosodd yn 'Y Cymro' rai blynyddoedd yn ôl:–

"Wrth gloddio yn un o'r caeau ar ei dyddyn daeth y diweddar Mr. J.R.Griffiths, Ty'n y Bigil o hyd i hen lif na welodd erioed mo'i thebyg. Dangosodd hi i amryw o gymdogion ond ni welodd un ohonynt lif 'run fath â hi ychwaith. Llif sengl ydyw gyda 39 o ddannedd breision carn haearn – a pheg haearn yn dal y carn yn ei le. Gorweddai'n bur agos i'r wyneb, ond cred Mr. Griffiths y bu yn y ddaear yn hir. Er gwaethaf ei chladdu y mae metel yr hen lif yn dal i ganu fel cloch o hyd."

Tybed a all rhywun ddatrys y dirgelwch?

Ni allai arddangosfa yn y fro fod yn gyflawn heb ryw gysylltiad â'r byd chwarelyddol. Yn naturiol, yn hyn o beth, ni chawsom ein siomi. Cafodd llu o ddefnyddiau, yn lluniau a llenyddiaeth, eu harddangos. Daeth llu o atgofion i sawl cynchwarelwr wrth edrych ar lond bwrdd o ger y chwarelwyr gynt. Dyna i chi'r cŷn man hollt; efail caps; morthwyl cowjio; morthwyl bras hollti; ebill main; cŷn bach; cyllell naddu a llu o rai eraill. Yn ychwanegol at hyn, diddorol oedd bwrw golwg dros waith hynod o fanwl Mr. O. R. Williams, 2 Bro Elidir ar ystyron termau chwarel. At hyn cafwyd llenyddiaeth hynod o ddiddorol drwy law adran Archifau y Cyngor Sir. Un ohonynt yn gosod i lawr ychydig awgrymiadau ymarferol ynglŷn ag iechyd y chwarelwr a gyhoeddwyd gan R. H. Mills Roberts, Ysbyty Chwarel Dinorwig, Awst 15ed, 1894. Sylwch ar y darn canlynol am ymborth y chwarelwr. Mae'n siŵr y bydd ei gynnwys yn synnu llawer ohonoch – yn arbennig felly yr yfwrs te rheolaidd:

"Cofiwch nad oes DIM MAETH mewn Te. Os ydyw y Chwarelwr am gadw ei nerth a'i iechyd, rhaid iddo fyw ar rhywbeth heblaw 'Te a Bara Menyn' (ac ychydig Datws a Chig). Gall a dylai, amrywio ei Fwyd gyda Uwd, Bara Ceirch, Potes, Llaeth, Cocoa, Llysiau o'r ardd megis Pys, Ffa, Maip, Moron, etc., a'r gwahanol Wyrddlysiau. Nid oes dim yn fwy maethlon, ac maent llawn cyn rhated neu ratach na 'The a Bara Menyn' – ond, hwyrach, dipyn mwy trafferthus'.

Peidiwch ag yfed Te 'wedi stiwio', ac yn arbennig wedi ei ferwi. Mae pum munud yn hen ddigon iddo sefyll."

Dyna ni yn fras rai o'r pethau diddorol a ddaeth i law. Cwbl amhosibl mewn erthygl o'r fath yw bwrw golwg fanwl ar yr holl gyfoeth a ddaeth drwy law'r trefnwyr. Cystal dweud inni gael wythnos i'w chofio.



*Mr a Mrs Huw Alun Jones, Sydney, Awstralia (gynt o Tan y Myrddin, Ceunant, Llanrug). Mae Huw yn darllen yr Eco ar ddiwrnod ei benblwydd yn 70. Mae yn Awstralia ers 21 o flynyddoedd.*

### FFANS Y LLEWOD!

Nodyn i chi, ffans y Llewod. Mae rhif 15 a 16 o gyfres Dafydd Parri ar werth yn y siopau. Rhif 15 yw "Y LLEWOD A MISTAR MOSTYN". Mae'r antur yn cychwyn ar ôl i'r Llewod golli tri dwsin o wyau. Pwy yw'r lladron sy'n poeni ffermwyr Moelfryn? A ydi'r carcharor o Ros-y-bwgan yn llechu yn yr ardal? Pwy ydi'r dyn tylluanod sy'n byw mewn iglw? Mae'r atebion yn Rhif 15.

Rhif 16 yw "Y LLEWOD MEWN STORM EIRA"; Pwy fu'n cysgu yn ffau'r Llewod yn ystod y nos? Pam 'roedd y lleidr yn dwyn tuniau o fwyd? Beth sydd wedi digwydd i'r bachgen aeth ar goll? Pwy ydi'r ddau sy'n ceisio croesi'r mynyddoedd?

Pwy sy'n mynd i brynu Rhif 15 a 16? Wel, plant bro'r Eco, siŵr iawn.

### YMDDIHEURIAD

**Meddyliwch! Cael enw Brenhines y Bêl yn y rhifyn diwethaf yn anghywir. Dilys Wyn Owen, wrth gwrs, ac nid Dilys Wyn Jones yw ei henw cywir. Drwg gennym am hyn. – Gol.**

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**


Mae
WIL a VAL GUY
perchnogion newydd
siop fwydydd, melysion a diodydd

Treflyn Stores
BETHEL

Ffôn : Y Felinheli 670237

yn croesawu cwsmeriaid
hen a newydd

# WAUNFAWR

PROFEDIGAETHAU – Mae'n cydymdeimlad dwysaf gyda'r canlynol : Mrs Owen, Glennydd ar golli ei thad; Mrs Joan Williams, Bryn Celyn ar farwolaeth ei mam; Mrs Brown, Llys Gwyrfai ar golli ei phriod; Mrs Lewis, Tref Eilian a'r teulu ar golli merch; Mrs Roberts, 2 Dôl Erddi ar golli chwaer; Mr Fred Owen ar farwolaeth ei fam, a Mrs M.H.Thomas, Tan y Foel ar golli chwaer.

BRYSIWCH WELLA – Dymunwn wellhad buan i Miss Jane Ellen Hughes, Ael y Bryn wedi iddi dorri ei braich yn ddiweddar a gobeithiwn y bydd Michael Parry, Ffridd Felen a Mrs Davies, Glanfa yn gwella yn yr ysbyty. Hefyd Arthur Jones, Shinfield a Harry Jones, Fron Hyfryd.

CROESO'N ÔL – Braf yw croesawu'r canlynol adref o'r ysbyty : Mr R. W. Roberts, Bryn Golau, Mrs Hughes, Dol Afon, Mrs Oliver, Bryn Golau, Mr Walker, Bryn Golau a Gavin Owen.

GENEDIGAETH – Mae gan Mrs Cadi Jones, Bryn Meurig gwmni benywaidd yn y tŷ o'r diwedd wedi geni Heddus, chwaer fach i Osian a Meilir a merch i John Gwynedd.

I Mr a Mrs Gary Davies, Hafan, mab Andrew Mark a Mr a Mrs Griffiths, Ty'n y Wern – merch Caroline.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Austin Jones ar enedigaeth ŵyr ac wyres – merch i Gwilym Morris a mab arall i Rheon a'i wraig ym Manceinion.

B.A. AC ATI – Llongyfarchiadau i Dylan Iorwerth, Cartrefle ar ennill ei radd yng Ngholeg Aberystwyth ac i John Roberts, Pant Teg ar raddio yn Lerpwl a chael swydd gyda chwmni o Benseiri o Fae Colwyn.

Llwyddodd Trystan Iorwerth i gael Diploma mewn Llyfrgellyddiaeth a swydd gyda Llyfrgell Ceredigion ac fe benodwyd Nia Einir Jones, Rhoslan yn athrawes yn Ysgol Pantychen, Llanharri wedi iddi ennill ei Diploma mewn Drama yng Nghaerdydd.

Cafodd Kevin Jones, Crud yr Awel a Iorwerth Jones, Llys Meredydd eu tystysgrif athrawon yn ddiweddar hefyd.

CERDDORIAETH – Yn Eisteddfod Llangollen daeth Hefin Jones, Glyn Afon Isaf yn ail ar yr unawd tenor a bu Gwyneth Ellis, Glyn Awel yn llwyddiannus mewn arholiad canu'r piano ac ymddangosodd ar y rhaglen Cant a Mil.

BLAENORIAID – Ordeiniwyd Mr E.W Jones, Bron Eifion a Mr David Jones, Wynfod yn flaenoriaid ymysg rhai eraill mewn cyfarfod misol a gynhaliwyd yn Eglwys Bethel, Waunfawr.

MEDAL RYDDIAITH – Llongyfarchiadau i'r Parch. Harri Williams, cynweinidog Eglwys Bethel ar ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Y CARNIFAL – Cafwyd Carnifal llwyddiannus eleni eto, pryd y coronwyd Sandra Roscoe yn Frenhines Agorwyd y Carnifal gan Syr Wynff ap Concord.

CLWB CANT – Dyma enillwyr mis Gorffennaf ac Awst. (1) Irene Roberts. (2) Mrs Menna Williams. (3) Norman Williams.

Awst: (1) Siôn Rhys. (2) John Huws Roberts. (3) Gweneirys Jones.

ARHOLIADAU – Llongyfarchiadau i'r holl blant a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau yn ddiweddar.

DIOLCH – Dymuna Mrs Meira Evans (gynt Miss Meira Jones) ddiolch o galon i Staff Ysgol Waunfawr a rhieni'r plant a gyfrannodd mor hael tuag at achlysur ei phriodas a'i hymadawiad o Ysgol Waunfawr. Diolch hefyd am gydweithrediad pawb a fu'n gymorth iddi dreulio dwy flynedd hapus iawn yn yr ysgol.

# LLAFUR CARIAD

## —Cau Capel Wesla Llanberis



Ar ddiwedd y mis hwn bydd yr ail o gapeli bach yr ardal yn cloi ei ddrysau am y tro olaf. Dros flwyddyn yn ôl gorfu i Gapel Seion y Bedyddwyr gau a heddiw, mae ar werth i'r cyhoedd. Yr ail yw Capel Bethel (Capel Wesla) sydd wedi brwydro yn galed, yn ddygn a dirwgnach i geisio cadw gwasanaeth cyflawn bob Sul gyda hanner dwsin (neu lai) o wrandawyr. Mae rhyw sibrydion yn mynd o gwmpas fod mudiad Cristnogol arall â'i olwg ar yr hen gapel bach. Gobeithio y daw'r sibrydion yn ffaith. Ni charem ei weld yn dadfeilio, nac yn warws neu ganolfan cabanau gwyliau i ieuenctid Lloegr.

Fodd bynnag, dyma garwn dynnu sylw ato – y gwasanaeth cyson, diflino a roddwyd gan un o'r aelodau. Cyfeirio yr wyf at Mrs Margaret William, Creigwel (Maggie neu Anti Maggie fel mae'r rhan fwyaf o'r ardalwyr yn ei hadnabod). Mae hi bron â chyrraedd 92 oed, ac wedi bod yn organyddes hyd heddiw er pan ydoedd yn 9 oed. Os gwn i a oes rhywun arall yn y cyffiniau sydd wedi rhoi gwasanaeth cyhyd â hi? Os oes, prin iawn ydynt. Bu ei phriod, y diweddar W. Williams yn godwr canu a hithau wrth yr organ, ond ers blynyddoedd bellach mae hi yn organyddes ac yn godwr canu. Rai misoedd yn ôl nid oedd ond y pregethwr, un yn y sêt fawr a Mrs Williams yn y gwasanaeth. Er hynny, 'roedd y canu a'r offeryn yn gorfoleddu drwy'r hen gapel bach ac wedi ysbrydoli'r pregethwr. Mae gwerthfawrogiad ardal gyfan i wasanaeth Mrs Williams, a bydd colled gweld cau yr hen gapel bach, ond iddi HI y bydd y golled fwyaf, 'roedd yn rhan o'i bywyd; yn wir, yn bopeth iddi. Dymunwn iddi lawer blwyddyn ddedwydd eto.


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


# 'ŴYR RHYWUN?



Llun a yrrwyd i'r Eco gan Mr John Williams o St. Lambert, Canada. Mae Mr Williams a'r teulu ar eu gwyliau yn Nhan-y-Coed ar hyn o bryd ac estynnwn groeso mawr iddynt. Hoffai wybod a oes rywun yn yr ardal a fedr ddweud wrtho rywbeth am y llun uchod a dynnwyd tu allan i Ysgol Cwm-y-glo. Pa flwyddyn oedd hi? Beth oedd yr achlysur? Pwy sydd yn y llun? Gyrrwch y wybodaeth i'r Golygydd Erthyglau, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon, Llanrug.

## CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR (W.E.A.)

### DOSBARTHIADAU YN Y CYLCH

**BRYNREFAIL**

*Beirdd ein Canrif.* **Mr. Cledwyn Jones, B.A.** Nosweithiau Mercher am 7.30 yn Ysgoldy Capel Brynrefail. 10 darlith yn dechrau Medi 27. *Tâl: £2.50.*

**CAERNARFON**

*Hanes Lleol.* **Miss Mat Pritchard, B.A.** Nosweithiau Llun am 7.00 yn Ysgol Segontium. 10 darlith yn dechrau Medi 25. *Tâl: £2.50.*

*Eating for Health.* **Dr. Eirwen Gwynn.** Thursdays at 1.30 p.m. at the Youth Centre, South Penrallt. 6 lectures beginning October 26. *Fee: £1.50.*

**DEINIOLEN**

*Hanes Lleol.* **Mr. Rhodri Prys Jones, B.A.** Nosweithiau Mawrth am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. 10 darlith yn dechrau Medi 19. *Tâl: £2.50.*

**LLANBERIS**

*Y Dyddiau a Fu.* **Mr. Gareth Heulfryn Williams, M.A., D.A.A.** Nosweithiau Iau, ac eithrio'r bedwaredd yn y mis, am 7.00, yn yr Ysgol Gynradd. 5 darlith yn dechrau Tachwedd 2. *Tâl: £1.25.*

*Art Appreciation.* **Mrs Barbara Mansel Owen, A.T.D.** Mondays at 7.00p.m. at the Primary School. 20 meetings beginning September 25. *Fee: £3.50.*

**LLANRUG**

*Problemau Cymdeithasol a Gwleidyddol Cyfoes.* **Dr. Cyril Parry.** Nosweithiau Llun am 7.00 yn yr Ysgol Gynradd. 20 darlith yn dechrau Medi 18. *Tâl: £3.50.*

**WAUNFAWR**

*Llên Llyfr a Llafar.* **Mr. John O. Huws, M.A.** Nosweithiau Llun am 7.15 yn yr Ysgol Gynradd. 6 darlith Hydref 2, 9, 30, Tachwedd 13, 27, Rhagfyr 11. *Tâl: £1.50.*

*Art Appreciation.* **Mrs Barbara Mansel Owen, A.T.D.** Fridays at 7.00 p.m. at the Primary School. 20 meetings beginning September 29. *Fee: £3.50.*


W.J.GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

FEDERATION OF MASTER BUILDERS
BP heat
A SHELL-MEX

*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*


**FFORDD NEWYDD ARFON**

O f'annwyl dref Caernarfon,
Rhaid cofio amdanat ti,
Yn cael dy falu'n ufflon
O flaen ein llygaid ni.
Dy Gapel Seilo heddiw
Sy'n gwyro'i ben i lawr,
Y Capel lle bu'r seintiau
Yn sôn am Iesu Mawr.

Dy Ysgol Rad aeth hefyd
Hon ddysgodd blantos bach
Wrth roddi ei gwybodaeth
I'w mennydd llon ac iach.
Ni welwn eto'n Arfon
Bost Bach na phen Stryd Llyn,
Mae Clarke St. a'r hen Twtil
Yn wagle mawr pryd hyn.

A thwrw y 'dur darw'
Sy'n codi cur drwy'r pen,
O brysied eto'r Wawrddydd
Y bydd y gwaith ar ben.
Ffordd newydd a fydd yma
Yn torri'r dref yn ddwy
Ac ni fydd trafferth wedyn
I'r llwythi mawr ddim mwy.

Twm Bethel

# DEINIOLEN

DIOLCHIADAU – Dymuna Siân Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i bawb am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

MARWOLAETH – Bu farw Mr Owen Elwyn Jones, 3 Vaynol Terrace ar Awst 8 yn 81 oed. Roedd Mr Jones yn aelod ffyddlon o Gapel Disgwylfa. Mawr yw ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Medi 4 am 7 o'r gloch yn Ysgol Gwaun Gynfi.

TÎM PÊL-DROED (O DAN 15 oed) – Mae'r hogia yn teithio i Leeds ar Fedi 16 i weld y gêm rhwng Leeds a Spurs. Mae'r daith yn rhodd iddynt am ennill Cwpan Bernard Wardle. Maent yn gobeithio cael cyflwyno rhodd o delyn wedi'i gwneud o lechen i Glwb Leeds.

Mae Mr Robert Evans, Hafod Olau yn bwriadu noddi'r hogiau yn ystod y tymor. Bwriad Mr Evans yw rhoi 10c am bob gôl. Os oes rhywun arall yn fodlon efelychu Mr Evans, cysylltwch a Mr Elfed Williams os gwelwch yn dda.

CROESO I'N PLITH – Leah Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, a anwyd Awst 6.

LLONGYFARCHIADAU – Carolyn Jones, Rhianfa, Clwt-y-bont ar eich llwyddiant gyda'r Nofio 100 medr a 200 medr.

JIWDO – Llongyfarchiadau i Euryn Williams, 3 Pentre Helen ac Aled Jones, 2 View Terrace ar eu llwyddiant ym mhencampwriaeth Jiwdo Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU – 'Roedd Gorffennaf 20 yn ddiwrnod arbennig iawn i Miss Carys Ann Williams, 2 Ffordd Deiniol. Dyma ddiwrnod ei phen-blwydd a diwrnod ei dyweddïad gyda Dafydd Llywelyn Hamer, Llwyn Crai, Rhostryfan. Llongyfarchiadau gwresog oddi wrth bawb.

STORI O TORQUAY – Yn ddiweddar aeth Mrs Emyr Pritchard, 1 Ffordd Deiniol ar drip Cae Lloi i Torquay. Daeth 'deryn bach i'r ardal gyda stori amdani'n mynd i fyny ar y llwyfan i ganu ac yn cael teisen anferth yn anrheg gan bobl y gwesty! Llongyfarchiadau Mrs Pritchard!

LLONGYFARCHIADAU – i Mrs Howell, 1 Glyn Terrace ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed ar Awst 19.

LLWYDDIANT CERDDOROL – Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant yn yr arholiadau piano: Edwina Jones (Gradd 1); Nia Ann Williams (Gradd 2); Rhian Jones (Gradd 3); Cheryl Parry (Gradd 3).

LLONGYFARCHIADAU i bawb yn y pentref sydd wedi llwyddo yn yr arholiadau Lefel, O, A a T.A.U.

MYND I'R BALA – Ar Awst 1af aeth nifer o blant rhwng 9 a 11 oed o gapeli Disgwylfa a Chefn-y-Waun i Ganolfan Ieuenctid yr Eglwys Bresbyteraidd yn y Bala. Treuliwyd gyda'r nos yn y Ganolfan yng nghwmni tri dwsin o blant eraill o wahanol ardaloedd Gogledd Cymru a oedd yn aros am wythnos o dan y cynllun 'Trwro'.

Wedi cael crwydro o amgylch hen Goleg y Bala, mwynhawyd barbiciw er, oherwydd y tywydd, bu'n rhaid bwyta'r cŵn poeth, creision tatw a chawl yn yr ystafell fwyta. Yn dilyn, cafwyd cafwyd gêm griced rhwng tîm Deiniolen a thîm Trwro Bala. Y sgôr derfynol oedd: Trwro Bala 74, Deiniolen 111. Nid oes wirionedd yn y si fod Gerry Packer wedi cysylltu â chwaraewyr Deiniolen! Dychwelodd pawb wedi mwynhau eu hunain ond yn flinedig. Gobeithir mynd ag eraill yn yr oedran 9 i 11 i'r Ganolfan yn fuan. Yn ystod misoedd y gaeaf bydd plant y ddau gapel yn cyfarfod gyda'i gilydd o dan y cynllun Trwro.

CYFARFOD PREGETHU – Cynhelir Cyfarfod Pregethu yng nghapel Ebeneser, Deiniolen nos Fercher, Medi 6 am saith o'r gloch. Cymerir rhan gan bobl ifanc y cylch ac fe bregethir gan y Parch. Gwilym Ceiriog Evans, Y Groes, Dinbych. Estynnir croeso cynnes iawn i bawb i addoli Duw ac i wrando ar yr Efengyl yn cael ei chyflwyno.

NEWYDDION Y SEINDORF – Prysur iawn fu hanes y Seindorf yn ystod misoedd yr haf. Buont yn chwarae ar lan y môr bob penwythnos yn Llandudno. Cafwyd taith gerdded ar Awst 19, taith gwthio coits o Ddeiniolen i Lanberis gan William Orwig Williams a Lona Lewis ar nos Fawrth, Awst 22 a bu'r Seindorf yn bresennol mewn amryw garnifalau yn diddori'r dyrfa. Hefyd cafwyd noson lwyddiannus ym Mangor mewn arwerthiant jymbl. Ar Fedi 8 fe gynhelir Ffair Hydref yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00 lle ceir stondinau groseri – teisennau, nwyddau ffansi ac amryw o stondinau eraill. 'Roedd y Seindorf yn chwarae yn y pentref nos Wener 25. Mae'r holl weithgareddau hyn er budd y Seindorf ar eu hymweliad â'r Almaen yn yr hydref.

Croesewir Mr Eric Foster fel arweinydd newydd y Seindorf. Drwg gennym ddeall bod Mr Huw John Jones, llyfrgellydd y Seindorf, yn disgwyl galwad i Ysbyty Gobowen. Dymunir iddo adferiad buan.

CANOLFAN CYMDEITHASOL – Cynhaliwyd dau Gyfarfod Cyhoeddus yn ystod Gorffennaf i drafod y priodoldeb o sefydlu Canolfan Cymdeithasol y pentref yn rhan o Ysgol Gwaun Gynfi. Gohiriwyd y mater yn y Cyfarfod Cyhoeddus cyntaf ar Orffennaf 12fed, pan nad oedd ond rhyw 25 o'r pentrefwyr yn bresennol, yn y gobaith y byddai gwell cynrychiolaeth mewn Cyfarfod Cyhoeddus arall i'w gynnal yn ddiweddarach yn y mis.

32 oedd yn yr ail Gyfarfod Cyhoeddus ar Orffennaf 26ain, pan benderfynwyd cymeradwyo bwriad Pwyllgor Cronfa'r Neuadd Bentref i ddefnyddio Neuadd yr ysgol ac addasu'r seler fel Canolfan Cymdeithasol, (eglurwyd mai hwn fyddai y rhan gyntaf o ddatblygiad cymdeithasol mwy eang i'w gyflawni yn y dyfodol ynghlwm wrth Ysgol Gwaun Gynfi).

Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus arall yn nes ymlaen i ethol Pwyllgor Rheoli y Canolfan, ac i ystyried dulliau at chwyddo Cronfa'r Neuadd Bentref, sydd ar hyn o bryd yn £1416, er cyfarfod costau'r addasiadau o tua £1600. Mae hwn yn fater o'r pwys mwyaf i ni fel pentrefwyr a phwysir am rymusach cefnogaeth i'r Cyfarfod Cyhoeddus nesaf.

## PWY YW'R AWDUR?

Hoffai Mr. H. Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant wybod pwy yw awdur yr englyn yma:

Y PISTYLL

Bu fy nain a nain honno – â'i phiser<br>
Hen ffasiwn odano;<br>
Er rhoi fel hyn er cyn co'<br>
Rhed atom yn rhad eto.


CYN TROI I BELLAFOEDD BYD — DEWCH I WELD Y Marina AR GARREG EICH DRWS.




CAR DA, DIOGEL DIBYNADWY. BRITISH LEYLAND AR EU GORAU! GWARANT 12 MIS – FAINT BYNNAG A DEITHIWCH

MAE GENNYM GEIR AIL LAW RHAGOROL HEFYD!

GARAJ MINFFORDD

BRITISH LEYLAND Morris BETHEL

PERCHENNOG T.R. & S. EVANS

FFÔN Y FELINHELI 451

# LLANRUG

PEN-BLWYDD PRIODAS — Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mr a Mrs H.E.Jones, Y Fedwen ar ddathlu deunaw mlynedd ar hugain o fywyd priodasol ar Awst 28 — oddi wrth eu merch Myra Bryn a Dafydd, Annie a Mary (chwiorydd).

NEWYDDION O'R BRIFWYL — Cafodd teulu'r Dalar Deg newydd diddorol iawn o'r Brifwyl, sef bod Mrs Irma Hughes de Jones, Patagonia, merch i Arthur, cefnder Mr W.A.Jones, wedi ennill gwobr am gasgliad o atgofion am y Wladfa. A phnawn dydd Gwener pwy oedd i'w gweld ar lwyfan yr Eisteddfod efo'r Cymry ar Wasgar ond Lowri a'i merch fach (2 flwydd oed). Mae Lowri yn ferch i Irma, yn briod a Philip Henri o Lansamlet ac mae'r ddau wedi dychwelyd i Gymru er mwyn codi Rebeca, y ferch fach, yn Gymraes; peth sydd wedi mynd yn anodd iawn ym Mhatagonia erbyn heddiw. I drigolion Talsarnau a Deiniolen, mae o ddiddordeb iddynt fod gor-wyres i Gwyneth Vaughan (mam Arthur) bellach yn trigo yng Nghymru.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr John Roberts, Bedw Gwynion ar ennill y wobr gyntaf ar y Delyneg yn yr Eisteddfod. Cafodd feirniadaeth fendigedig.

YN YR YSBYTY — Deallwn fod Mrs Elizabeth Jones, Egryn Villa yn Ysbyty Bryn Seiont; Mrs Mary J. Roberts, Glanmoelyn yn ysbyty Môn ac Arfon, a Mrs Gaynor Owen, 2 Ffordd Glanffynnon mewn ysbyty yn Lerpwl. Anfonwn ein cofion atynt a dymuno adferiad buan iddynt.

YN GWELLA — Bu Mrs Rowlands, Llys Forgan; Mrs Linda Jones, Pant Mwyn a Gwyn, mab bychan Mr a Mrs Glyn Jones, Glan Padarn yn yr ysbyty yn ddiweddar. Rydym yn falch o'u gweld gartref a dymunwn wellhad buan iddynt hwythau. Mae'n braf gweld Mrs Mary Jones, 1 Bryn Fedwen o gwmpas eto ar ôl ei damwain. Croeso adref Mrs Jones.

Y DIWEDDAR MR. ROBERT MORRIS WILLIAMS, DERLWYN — Dydd Iau, Mehefin 29 bu farw'r gŵr annwyl hwn yn 79 mlwydd oed, ac yn ei farwolaeth collodd yr ardal gymeriad hoffus a chymwynasgar, boneddigaidd a charedig. Yr oedd yn enedigol o'r pentref, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Edward Williams, Penterfyn. Wedi iddo adael ysgol dechreuodd ei yrfa yn y Llythyrdy fel negesydd yn y llythyrdy lleol. Gwasanaethodd y Llythyrdy hyd ei ymddeoliad rai blynyddoedd yn ôl yng Nghaer a Manceinion. Trwy gydol ei oes cymerodd ddiddordeb byw mewn crefydd a diwylliant. Bu'n aelod yn Eglwys Bresbyteraidd Gymraeg St. John's Street, Caer, ac yna yn Eglwys Gymraeg Moss Side, Manceinion lle dewiswyd ef yn flaenor. Rhoddodd ei orau bob amser er hyrwyddo gwaith yr eglwysi hyn, a bu'n gefn i'r bywyd Cymraeg yng Nghaer a Manceinion. Ar ei ymddeoliad, ddeunaw mlynedd yn ôl, daeth yn ôl i'w fro enedigol gan ymgartrefu gyda'i chwaer, y ddiweddar Mrs Price yn Derlwyn. Ymdaflodd â'i holl galon i fywyd yr ardal ar unwaith. Dewiswyd ef yn flaenor yn Eglwys y Capel Mawr. Gwasanaethodd ei eglwys gyda theilyngdod mawr i'r diwedd. Ei hoff waith fel blaenor oedd cadw'r drws a chroesawu aelodau a dieithriaid a ddeuai i addoli i'r Capel a Sul i Sul. Yn ystod ei flynyddoedd olaf teithiodd lawer i wledydd tramor fel Malta a De Affrica. Yr oedd yn hoff o wneud cyfeillion, a gwnaeth lawer o gyfeillion o bob cenedl, credo ac iaith ar ei wahanol deithiau. Bu ei arwyl dydd Llun, Gorffennaf 3 pryd y gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn Amlosgfa Bangor gan y Parch. D. Gwynfor Williams, a'i weinidog, y Parch. W.O.Roberts. Rhoed ei lwch i orffwys ym medd ei rieni ym mynwent y plwyf, Llanrug. Cydymdeimlir a'i frawd Mr Owen Williams, Caeathro, a'r teulu i gyd yn eu hiraeth.

W.O.R.

BEDYDDIO — Dydd Gwener, yn ei gartref Bedw Gwynion bedyddiwyd Llŷr Siôn, mab bychan John a Mary Roberts, a brawd Lowri. Gwasanaethwyd gan ei weinidog, y Parch. W. O. Roberts.

Y SEINDORF — Bu'r Seindorf yn brysur iawn yr haf yma. Buont yn chwarae mewn cyngerdd ar Faes Caernarfon, dau gyngerdd yn y Parc Carafanau ym Mryn Bras, arwain gorymdaith 'Majorettes' yng Nghaernarfon ac mewn carnifalau yn Y Felinheli, Llanberis, Cwm-y-glo, Dwyran a Phorthmadog. Dymunant ddiolch i Seindorf Deiniolen am eu cymorth yng Nghwm-y-glo. Mae'r gwaith o atgyweirio'r Cwt Band yn mynd ymlaen a buasai cymorth gwirfoddolwyr yn dderbyniol iawn.

Y DIWEDDAR MR. IORWERTH JONES, PENRHOS — Bore Sadwrn, Gorffennaf 29 daeth cwmwl o dristwch dros bentref Llanrug a'r ardal o glywed y newydd am farwolaeth annisgwyl y brawd annwyl hwn. Yr oedd yn enedigol o'r pentref, yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Edward Jones, Penrhos. Gŵr tawel, siriol a charedig ydoedd, ac enw da iddo fel gweithiwr diwyd a chydwybodol. Saer coed ydoedd wrth ei alwedigaeth ac yr oedd iddo air da fel crefftwr medrus yn yr alwedigaeth honno. Bu'n gweithio yn Lerpwl am lawer o flynyddoedd lle'r ymbriododd â gwraig o'r ddinas honno; cafodd y ddau 33 mlynedd o fywyd priodasol hapus. Bu'r angladd ddydd Mercher, Awst 2 pryd y gwasanaethwyd yn y tŷ ac ym mynwent Llanrug gan y Parch. W.O.Roberts, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Gwynfor Williams. Cydymdeimlir â'i weddw Mrs Doris Jones, Penrhos a'i frawd Mr John Griffith Jones, Gorffwysfa yn eu hiraeth.



PRIODAS — Dydd Sadwrn, Gorffennaf 29, yng nghapel Saesneg Methodistaidd y Rhyl, priodwyd Mr Shencyn Rowland Hughes, mab Dr a Mrs Dan Hughes, Plas Pantafon, a Miss Eluned D. Parry, y Rhyl. Y morynion oedd Miss Delyth Hughes, Miss Mari Rowland Hughes a Mrs Patricia Parry. Y gwas priodas oedd Mr Peter Scott. Gweinyddwyd gan y Parch. A. Daemond Hall, gyda Mr A. Dale wrth yr organ. Mae'r priodfab yn athro ymarfer corff yn ysgol Ottershaw, Surrey a byddant yn cartrefu yn Ottershaw Park, Chertsey, Surrey. Llongyfarchiadau a dymuniadau da i'r ddau.

LLONGYFARCHIADAU — i bobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau.



YMUNO Â CHATRAWD — Ar ôl hyfforddiant yn Sandhurst mae Mr Shôn Rowland Hughes, mab Dr. a Mrs Dan Hughes, Plas Pantafon, wedi cael ei gomisiynu ac yn awr wedi ymuno â Chatrawd Frenhinol Cymru, yn Aldershot. Llongyfarchiadau iddo a dymuniadau da yn y dyfodol.

CARTREF NEWYDD — Dymunwn yn dda i Mr a Mrs Ken Williams a'r teulu, Regent House, sydd wedi symud i fyw i Lanberis.

CROESO ADREF — i Mr Meuryn Huws-Roberts, Park Villa; Mr Thomas Roberts (Ty'n Rardd gynt) sydd yma o Awstralia am ychydig fisoedd, a Mr a Mrs Moi Parry, Peterborough, Canada sydd drosodd ar wyliau.

MARW — Trist iawn oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr Maldwyn Roberts, Bryn Tirion. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i wraig a'i blant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

PRIODASAU — Dymuniadau gorau i Mr David Mackinnon, Fferm Plas Tirion ar achlysur ei briodas a Miss Cerid Hughes Parry, Caernarfon ac i Mr Gwyn Hefin Roberts, Dwyryd, Glanffynnon gyda Miss Catriona Ingram o'r Alban. Pob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

DYRCHAFIAD — Llongyfarchion i Mr Iolo Huws-Roberts, mab Mrs J Huws-Roberts ar ei ddyrchafiad yn Arolygwr Ysgolion. Ar hyn o bryd ef yw Pennaeth Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Ionawr. Dymunir pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

DYFODOL ENLLI: TŶ I'R URDD AR ENLLI — "Er mwyn cadw cysylltiad gwirioneddol Gymreig ag Ynys Enlli, ac i alluogi ieuenctid Cymru ei hadnabod a'i charu fel rhan o'n hetifeddiaeth genedlaethol, gofynnwn i Ymddiriedolaeth Ynys Enlli roi tenantiaeth o dŷ addas ar yr Ynys".

Os oes unrhyw un (dros 18 oed) yn fodlon cefnogi'r Urdd yn yr achos uchod, a wnewch chi arwyddo'r ffurflen sydd yn Llythyrdy Llanrug, fel rhan o ddeiseb Cyngor Cymdeithas Aberdaron? Diolchwn i'r Llythyrdy am ganiatâd i roi'r ffurflen ddeiseb yno.

DAWNS WERIN A BWFFE (AT 'STEDDFOD CAERNARFON) — Nos Wener, Medi 22 cynhelir Twmpath Dawns a Bwffe Bys yng ngwesty'r Royal, Caernarfon o 8p.m. tan hanner nos (bar hwyr). Cewch brynu tocynnau (ymlaen llaw yn unig) — £2 — gan Idwal Williams, Disgwylfa, Heol yr Orsaf, Llanrug ac Olwen Huws, Eithinog, Afon Rhos, Llanrug. Hefyd trefnir bws i adael Sgwar Llanrug am 7.45pm. ac i ddychwelyd ar ddiwedd y noson, pris 35c (ymlaen llaw). Gwelwch bosteri lleol.

CHWARAE TEG I'R HOGIA

Pan oeddwn yn cerdded gyda'r Orymdaith yn Llanberis am yr lawndal i'r Chwarelwyr, gwelais lawer yn edrych tua'r chwarel.

Cofio 'roeddynt am y dyddiau pan gerddent elltydd syth y chwarel o'r gilfach Ddu i'r "Top Tir", ond mae'r allt fach i Westy Victoria yn ddigon heddiw.

Ia, dynion canol oed wedi colli eu hiechyd drwy lwch y llechen, a chywilydd o beth oedd eu gweld yn gorfod gorymdeithio ac areithio am Gyfiawnder.

Mae eu rhif yn mynd yn llai o flwyddyn i flwyddyn, felly, mae hi'n frwydr yn erbyn amser hefyd, ac mae'r amser yn mynd yn gyflem. O, brysied y dydd i'w gweld yn cael yr lawndal a haeddant.

**BRWYDR Y CHWARELWYR**

**Yn Llanberis bu Gorymdaith,**
**Un gofiadwy oedd yn wir,**
**Gofyn 'roeddynt am lawnderau**
**I chwarelwyr yr hen sir.**
**Llawer iawn oedd yno'n cerdded**
**A'r baneri yn y gwynt,**
**Ac i lawer calon yno**
**Daeth atgofion dyddiau gynt.**

**Cofio cario yr ebillion**
**Wedi tyllu'r galed graig,**
**Ond yn awr mewn byd o fethiant**
**Ar eu ffon a chymorth gwraig,**
**Wedi dioddef drwy'r blynyddoedd**
**Heb Gyfiawnder yn y byd,**
**Llwch y llechen byth i aros**
**Yn eu sgyfaint hwy o hyd.**

**Cofiwn heddiw am y dynion**
**Sydd yn awr yng ngwely'r gro**
**Wedi colli eu bywydau**
**Gyda llwch y llechen do.**
**Brwydro'n galed a wnawn eto,**
**Nid yw'r dydd i fod ymhell,**
**Pan y daw i'r holl chwarelwyr**
**lawndal llawn a dyddiau gwell.**

**Twm Bethel.**

# Ceunant

PEN-BLWYDD — Llongyfarchiadau i Mrs Thomas, y Garth, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 93 oed ar Orffennaf 4ydd. Dymunwn adferiad iechyd iddi ac y cawn ei gweld yn ein plith yn fuan.

PENODIAD — Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Carys Mai Jones, Gwelfor ar gael ei phenodi ar staff Banc y National Westminster yng Nghaernarfon.


E.&E.M. GREEN

**SIOP GRON**

A SWYDDFA'R POST

**PENISARWAUN**

**Ffôn: PADARN 272**

**NWYDDAU GROSER**
**FFRWYTHAU A LLYSIAU**
**FFRES**

# DINORWIG

LLONGYFARCH — Llongyfarchiadau i Mrs A. Thomas, Creigle ar ei llwyddiant gyda'r ieir Bantam yn Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghaernarfon.

Hefyd i Mr Eric I. Williams, Tŷ Capel ar ddod yn gyntaf gyda'i gi yn y dosbarth trydydd yn Nosbarth Agored Ymrysonfa Cŵn yn Llanllyfni.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mrs S. Jones, 13 Grosvenor Road, Wavertree, Lerpwl (gynt o Dinorwig House) a hefyd ei chwiorydd a'r teulu ddiolch am y cydymdeimlad a'r llythyrau a'r cardiau a dderbyniwyd ganddynt yn y brofedigaeth o golli Eileen Valentine, merch Mrs Jones.

YN YR YSBYTY — Dymunir gwellhad buan i Miss Heulwen Jones, Cegin yn Ysbyty Môn ac Arfon. Hefyd i Arfon Roberts, Ysgubor yn Ysbyty Walton. Cofion hefyd at Mr John H. Williams, 7 Maes Eilian sydd yn Ysbyty Bryn Seiont.

LLONGYFARCH — Llongyfarchiadau i Miss Annette B. Roberts, Tŷ'r Ysgol a'i pharti o Lanberis yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

DAMWAIN — Tra'n dilyn ei gwaith yn Llanberis torrodd Mrs H.M.Roberts, Tŷ'r Ysgol ei braich. Dymunir gwellhad buan iddi.

YN YR YSBYTY — Bu Mr H.L.Jones, 7 Bro Elidir yn ddiweddar am driniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon. Hefyd Mrs Jennie Jones, Buarth Newydd yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

DAWNS 'SGRECH' — Cynhaliwyd Dawns yng nghwmni Disco'r Llais yn y Ganolfan leol nos Iau, Awst 24. Sicrhawyd elw o £30 tuag at gostau'r cylchgrawn pop 'Sgrech'. Rhag ofn nad ydych eisoes yn gwybod, 'Sgrech' yw enw'r cylchgrawn pop newydd a ymddangosodd y mis diwethaf. Un o'r golygyddion yw Glyn Thomas, 1 Bro Elidir, ac yn y rhifyn cyntaf cafwyd erthyglau gan John Eryl Roberts ac Emyr Llywelyn, y ddau o Ddinorwig. Diolch arferol i bawb am gyfrannu tuag at noson lwyddiannus. Gobeithir trefnu mwy o ddawnsfeydd yn ystod y gaeaf.

CRONFA LEOL YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Cynhaliwyd Arddangosfa yn y Ganolfan Gymdeithasol o 18 - 22 Gorffennaf. 'Roedd yn llwyddiant ysgubol mewn llawer ffordd a'r elw yn £53. Mae ein dyled i'r ardal a'r ardaloedd cyfagos am eu cefnogaeth. Cawsom gynnyrch hen a newydd i'w harddangos. Rhoddodd y Bwrdd Trydan, Cynllun Dŵr Dinorwig a Swyddfa'r Archifydd yng Nghaernarfon arddangosfa o'u gwaith i fyny ac yr ydym yn ddiolchgar iddynt. Braint i ni fel swyddogion yw cyhoeddi mai £50 yn unig sydd ei angen eto i gwblhau'r nod o £550. Yr ydym yn bwriadu cynnal Noson Goffi yn fuan yn yr hydref gyda'ch cefnogaeth chwi.

CYDYMDEIMLO — Cydymdeimlir â Mr a Mrs Gwilym Williams, Chwarel Goch, Fachwen ym marw tad Mrs Williams yn ddiweddar ym Methesda.

CYFARFOD SEFYDLU
MR. TREFOR LEWIS (Caergybi)

Cynhaliwyd cyfarfod i sefydlu Mr. Trefor Lewis o Gaergybi yn weinidog ar ofalaeth newydd Cefn-y-Waun a Disgwylfa yng Nghapel Cefn-y-Waun Deiniolen ar Orffennaf 19.

Agorwyd y gwasanaeth gan y Llywydd, Mr Caradog Hughes, Caeathro, gyda gweddi. Dilynwyd gydag emyn ac yna darllenwyd rhan o'r Ysgrythur gan y Parch. S.H.Williams, Cesarea, cyn-weinidog Disgwylfa. Cafwyd gweddi gan gyn-weinidog Cefn-y-Waun, y Parch. J.Price Wynne, Bronwydd ac yn dilyn, swynwyd y gynulleidfa gan ganu melys plant yr ofalaeth.

Gŵr ieuanc yw Mr Lewis yn meddu dawn arbennig gyda'r plant a'r bobl ieuanc. 'Roedd y deyrnged a gaed gan y Parch. Gwynfryn Evans ar ran Henaduriaeth Môn, Mr Robert Williams ar ran Cyngor Dosbarth Caergybi, Mr W.G.Lewis ar ran Eglwys Bethphage, cyn Eglwys Mr Lewis, a Mr Gwyn Rhydderch ar ran ei gydfyfyrwyr, yn amlwg yn tanlinellu eu colled hwy ym Môn a'n hennill ninnau yn Arfon.

Darllenwyd datganiad y Llywydd o bwrpas y Gwasanaeth a sefydlwyd Mr Trefor Lewis yn weinidog yr ofalaeth.

Arweiniwyd eto mewn gweddi ar ran y Gweinidog gan ei gyn-weinidog y Parch. Gwilym Ceiriog Evans, y Groes ger Dinbych.

Rhoddwyd croeso cynnes i Mr Lewis a'i briod Miriam a'r ddau fachgen bach i dir a gwaith newydd gan y Parch. Stanley H. Williams ar ran Henaduriaeth Arfon, y Parch W. R. Williams, y Felinheli ar ran y Cyfarfod Dosbarth, Y Parch. George Brewer (diweddar) ar ran Cyngor Eglwysi Deiniolen, ac ar ran yr ofalaeth gan Mr Eifion Williams, Cefn-y-Waun a Mr Eifion Wyn Williams, Disgwylfa.

Y Parch. W.Bryn Williams, Llanarmon-yn-Ial a roddodd siars i'r ofalaeth a chafwyd gweddi ar ran yr ofalaeth gan y Parch. W.O.Roberts, Llanrug.


Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E.WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD


## SIOE GWNINGOD

Yn dilyn stori a gyhoeddwyd mewn rhifyn diweddar o'r Eco am lwyddiant Mr Gwilym Williams, Ddôl Fach, Cwm-y-glo mewn sioeau cwningod, cafwyd cryn ymateb i'r cais am help i drefnu sioe gwningod yn yr ardal hon. Gan fod cymaint o ddiddordeb yn y syniad mae Mr Williams a nifer o helpwyr wedi trefnu Sioe Gwningod i'w chynnal ar ddydd Sadwrn, Medi 30 yn Llanrug. Trwy garedigrwydd y rheithor, Mr Gwynfor Williams, trefnwyd i ddefnyddio hen ysgol Glanmoelyn i gynnal y cystadlaethau am y cwningod gorau.

Gan mai hon yw Sioe Gwningod gyntaf yr ardal ers cryn amser (er 1902?) disgwylir cefnogaeth dda iddi gan gystadleuwyr o wahanol rannau o Wynedd yn ogystal â'r trigolion (yn enwedig plant) lleol sydd am fanteisio ar y cyfle i weld Sioe Gwningod o safon uchel. Sicrhawyd gwasanaeth un o feirniaid mwyaf profiadol Gogledd Cymru, sef Mr Michael Parsons, sy'n enedigol o Lanrug.


Bydd y drysau ar agor i'r cyhoedd am 1.30 pm. Pris mynediad yw 10c i oedolion a 5c i blant a phensiynwyr. Bydd te, brechdanau a theisennau ar gael yno hefyd.

Mae'r gwobrau i'r enillwyr yn cynnwys tair cwpan arian, rhosglymau a medalau, ac mae gwobr fechan i bob plentyn fydd yn cystadlu. Mae croeso i bob plentyn sy'n cadw cwningen anwes roi cais arni hi.

Er mwyn talu costau'r Sioe mae nifer o gefnogwyr yn gwerthu tocynnau raffl. Os ydych eisiau helpu'r ymdrech hon neu eisiau rhagor o fanylion am y Sioe cysylltwch â MR. GWILYM WILLIAMS, DDÔL FACH, CWM-Y-GLO (Ffôn: Llanberis 851).

Os ydych am bnawn Sadwrn difyr a rhad cofiwch am y Sioe. Mae'n werth cefnogi'r Sioe gyntaf hon. Y gobaith yw y ceir digon o gefnogaeth i'r Sioe ddatblygu'n un flynyddol a fydd yn cynnwys cystadlaethau anifeiliaid, blodau a llysiau o bob math. Dymuna Gwilym Williams ddiolch am yr holl gefnogaeth a gafodd hyd yma.


CRASBOETH o'r LOLFA!!




Nofel antur/ditectif orau'r ganrif yn Gymraeg. £1.95

Cant o dafarnau gorau Cymru gyda llun a malu cachu am bob un. £1.25










Y Llewod diweddara! 85c yr un

Mynnwch ein catalog rhad.

Y Lolfa

Talybont Ceredigion ffôn 304

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## PIGION O HEN LYTHYRAU'R MILWYR

**BYDDAI FY niweddar dad, Glan Rhyddallt, yn derbyn llythyrau oddi wrth y bechgyn a oedd yn y fyddin yn ystod y rhyfel ddiwethaf. Weithiau byddai'r bechgyn yn dweud hanesion doniol iawn wrtho. Dyma bigion o'r hanesion.**

"Chwynnu moron oedd fy ngwaith yr wythnos ddiweddaf o wyth y bore hyd naw yr hwyr ar gae mawr perthynol i'r camp yma. Rhyw 'farmer's boy' oeddwn. Ond dyma'r hwyl a gefais: 'roedd amryw o'r bechgyn wedi gadael y chwyn, ac ni ddysgais mohonynt i wybod y gwahaniaeth na'u cyfarwyddo pa fodd i chwynnu, gan mai dyna'r ffordd i ni golli'r gwaith. Biti na fyddai'n bosibl i ni gael "cerdyn" yn y fyddin am rhyw drosedd fel yna a'n hanfon adra fel y buasem yn gael mewn chwarel neu ffatri, ynte!"

"Y diwrnod o'r blaen yr oedd y 'commandos' yn gorfod neidio i'r dŵr a dyma un o'r bechgyn yn dweud ei fod o ofn tynnu ei ddillad oddi amdano rhag ofn bod yna gŵn o gwmpas ac iddynt ei gamgymeryd am asgwrn!"

"Cefais fy nal un diwrnod yn ymguddio mewn rhesi tatws a chefais gosb am hynny. Biti na fuaswn wedi dewis rhesi pys ynte!"

"Y mae yna lawer o filwyr America a gwisgoedd drudfawr ddigon amdanynt. Y mae gwisgoedd milwyr cyffredin America mor wych â'n swyddogion ni, ac y mae'n hawdd i ni eu camgymeryd am swyddogion. Gwisgant gap tebyg i filwyr Ffrainc ond gwell. Nid oedd ryfedd i Robin 'Stiniog saliwtio Postmon yn Ffrainc erstalm. Y mae gan yr Iancis fwy o bres poced na ni, a'u cyflogau lawer yn uwch wrth gwrs."

"Diolch i chwi am eich nodion yn yr Herald yn awgrymu calon y gwir, sef mai ein dymuniad ni fel bechgyn o Gymru ydyw cael bod gyda'n gilydd yn y fyddin, ac nid fel yr ydym wedi ein gwasgaru yn un, neu ddau neu dri yma a thraw ymhlith y Saeson."

"Yn hollol naturiol digwyddais saliwtio un o'n swyddogion y diwrnod o'r blaen ac yr oedd un o filwyr America yn ymyl. Nid yw'r Iancis yn credu dim mewn saliwtio, ac nid oes neb arall yn y byd yn credu ynddo dim ond y Saeson. Ebe'n swyddog ni wrth yr Ianc, "Sut na buaset yn saliwtio'r Goron?" Cafodd ateb parod gan yr Ianci, "A wyt ti'n meddwl fy mod i wedi dwad dros y môr filoedd o filltiroedd i'r fan yma i wneud rhyw ffwlbri o beth fel yna? Dyfod yma i guro Hitleriaeth i'r llwch a wnaethom ni. Y mae helpu Rwsia'n bwysicach filwaith na saliwtio'r Goron."

"A glywsoch chi hanes y Parch. T. M. Rees yn dweud stori ar ei bregeth, stori gwerthu dau fochyn yn y farchnad lle y cafodd sylfaen i'w grefydd. "Shwd fois i fyta yw'r ddau yna?" gofynnai rhyw ffermwr iddo. "Wel," meddai, "mae stumog splendid gyda hwna, ond am hwn, druan ohono, un bach delicate iawn yw e." Ond y mochyn bach delicate a brynodd y ffermwr am i'w berchen ddweud y gwir. Gwelodd fod y gwir yn talu!

Ebe'r ffermwr o Hwntw, "Rwy'n cofio mochyn gen i, y sala' a welis i erioed, yn gywilydd ei arddel. Yr oedd ei wrych yn sticio i fyny a chymerais wellaif i'w dorri. Os oedd yn edrych yn ddrwg cynt yr oedd yn saith hyllach wedyn. Pan euthum ag e i'r farchnad gofynnodd rhywun, 'Faint y'ch chi'n mofyn am y teigar yna?' 'Chei di ddim ohono am bris yn y byd,' ebe fi. Ond gwerthais ef yn y diwedd wrth ei ganmol, a fûm i erioed yn falchach o gael ymadael â chreadur. Penderfynais os digwydd i mi gael mochyn eto mor hyll â'r gŵr drwg nad â'i ddim i drio polisio dim arno, oherwydd y mae natur yn drech na chelfyddyd hyd yn oed mewn gwrychyn mochyn. Pwy ddywedodd fel hyn am y mochyn?

Ei hardd flew, ei gig tew teg,
Ei fol annwyl, a'i floneg.

"Yr wyf yn Neheudir Lloegr gyda'r fyddin ar hyn o bryd. Cawsom ddau ddiwrnod o ollyngdod ac aethom am dro i Lundain. Wedi bod drwy'r dydd yn mwynhau cwmni hen gyfeillion cawsom lety rhagorol yn y 'Welsh Service Club' yn Neuadd Cymry Llundain. Pwy bynnag feddyliodd gyntaf am sefydlu'r clwb hwn, bendith ar ei ben, ddywedaf fi: y mae o werth amhrisiadwy i Gymry oddi cartref yn enwedig i fechgyn y lluoedd. Yr oedd yno ddeuddeg ar hugain o welyau glân a chlyd, a'r nos Sadwrn hwnnw yr oedd y lle yn llawn. Brecwast penigamp bore drannoeth a'r cwbl am bris isel hynod. Yr oedd yno ddigon o lyfrau a newyddiaduron Cymraeg at ein gwasanaeth: hefyd pedair neu bum perdoneg ac unawdau a darnau Cymraeg adnabyddus. Ar ôl swper dyma ymgasglu o gwmpas y piano a hen daflenni'r cymanfaoedd gennym. Dyna ganu o waelod calon Gymreig — morwyr, awyrenwyr, milwyr, A.T.S., W.A.A.F.S., a merched ieuainc Cymreig Llundain. Bachgen o Gastell Nedd (o'r Welsh Guards) yn ein harwain a'r gallu ganddo i dynnu pawb i ganu. Heb os yr oedd y canu yn ddigon i godi gwallt eich pen, yn neilltuol felly yn y dôn Huddersfield a'r dyblu a'r treblu.

**GYDA DIOLCH**

£2.00: Mrs Meinir Metcalfe, 2 Dovedale Avenue, Scarborough; £3.00: Mr H.Parry, 58 Thornhill Gardens, Leyton, Llundain; £1: Mr a Mrs E.J.Owen, Southport.

# MIRI'R CA



*Dai Davies — golgeidwad Wrecsam a Chymru — yn agor Carnifal Llanberis, gyda chriw o edmygwyr o'r Alban o'i gwmpas.*



*Caleb yn cyfarch rhai o'i fytis yng Ngharnifal Cwm-y-glo.*



*"Grinda gw boi, ti ne fi yw'r hylla, sunshine?"*




*Pobl Deiniolen yn mwynhau awyrgylch eu Carnifal*


**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo**



**Ffôn : LLANBERIS 814**

**GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR**

## RNIFALAU



*Aelodau o dîm Dawnswyr Morris Llanrug a fu'n diddori cymaint o bobl yn yr ardal yn ystod misoedd y carnifalau.*



*Pwy ddywedodd mai Hywel a Blodwen oedd rhain?*



*Rhai o gystadleuwyr yn y coesau mwya' deniadol yng Ngharnifal Cwm*



*"Os ydw i yn gorfod sefyll fan hyn yn hwy, dwi'n mynd i fwyta fi'n hun" meddai Eilir Williams cyn iddo glywed ei fod wedi ennill y gystadleuaeth.*


YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU – RECORDIAU – CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS

CAERNARFON (Ffôn: 5262)


# LLYFRAU

Daeth i law doreth o lyfrau o'r gweisg yn ystod y mis, a chalondid mawr oedd gweld cymaint ohonynt. Gan mai cymharol fychan yw gofod yn yr Eco rhaid bodloni ar ddim ond crybwyll rhai ohonynt. Haedda eraill sylw manylach oherwydd eu cysylltiad â'r ardal.

**MYFYRION HEN CHWARELWR – J. D. Evans.**

Dyma lyfryn Bro arall gan J.D. Evans yn dilyn ei gyfrol gyntaf 'Hiwmor y Chwarelwr.' Rhaid canmol Cyhoeddiadau Mei yn y lle cyntaf am gynhyrchu'r llyfrynnau yma ac am sylweddoli pwysigrwydd llenorion bro fel J.D.Evans, Deiniolen. Yn ail, rhaid eu llongyfarch am gynhyrchu'r llyfrau am bris rhesymol iawn. Yn sicr, cawn werth 70c a mwy unwaith eto gan J.D.Evans. Mae'n croniclo'n ddiddorol a diymhongar iawn ei blentyndod yn ysgol Dinorwig, ysgol Llandinorwig, a'r hen ysgol yn Neiniolen. Mae ei hanes cynnar yn y chwarel yn hynod o ddiddorol a gafaelgar. Yn wir, byddai'n agoriad llygad i lawer bachgen ifanc heddiw pe bai ond yn darllen y bennod ar y chwarel. Gwyddom fod llawer o'r to ifanc yn "sbecian ar Eco'r Wyddfa weithia"; os darllenwch hyn o lith, ewch ati i brynu'r llyfr hwn. Mae'n werth pob ceiniog allwch chi'i fforddio. Cynhwysir ynddo hefyd gerddi o eiddo'r awdur, gan gynnwys cerdd i'r Eco, a gyhoeddwyd yn un o'n rhifynnau cynhara'. Edrychwn ymlaen yn eiddgar am "Cerddi J.D.Evans" a gyhoeddir yn y dyfodol agos.

**HYN A'R LLALL**
**T. Ceiriog Williams.**
**Llyfrau Poced Gomer. Pris £1.10**

Haedda'r llyfryn hwn le blaenllaw yn yr Eco y mis hwn hefyd. Er nad oes fawr am yr ardal ynddo, ac er nad oes cysylltiad rhwng yr awdur a'r fro, eto i gyd, mae'r llinyn cyswllt rhwng y llyfr hwn a Llanberis yn annatod. Mae T. Ceiriog Williams yn llenor toreithiog iawn, ac eto i gyd, nid er ei fwyn ei hun yr ysgrifenna, ond er mwyn Cymru a'r Gymraeg. Cyhoedda yn y llyfryn hwn fod "holl elw gwerthiant y gyfrol hon yn mynd at gronfa Cartref T. Rowland Hughes." I'r rhai hynny ohonom yn y fro sy'n gefnogol ac, yn wir, yn croesawu, menter Cyngor Cymdeithas Llanberis, ein dyletswydd ni yw prynu'r llyfr 'Hyn a'r Llall.' Rhaid gwerthu cryn dipyn cyn y dangosir elw. Gellwch archebu copiau drwy gysylltu â'r Golygydd Erthyglau yn yr Eco – Arwel Jones, Gwen-y-Wawr, Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 3719. Rhoddir mwy o fanylion am ei gynnwys yn y rhifyn nesaf.

**BRIWSION Y BRIFWYL**
**Ernest Roberts**
**Gwasg Gwynedd. Pris:£1**

Un arall sydd yn cyflwyno ei lyfr i achos arbennig yw Ernest Roberts. Cyflwynir y llyfr hwn i Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Gellwch archebu'r llyfr drwy eich pwyllgor Eisteddfod lleol. Dylai copiau fod yn eu meddiant. Bydd yr elw yn ei dro yn mynd at y Gronfa Leol.

Ceir ynddo hanes cythryblus yr Eisteddfod Genedlaethol ac, yn ol Syr Thomas Parry, "nid oes neb heddiw'n fyw sy'n gwybod hanes y blynyddoedd blin hynny cystal â Mr. Ernest Roberts." Gwir pob gair.

**TAFARNAU CYMRU**
**Y Lolfa. Pris: £1.25**

"Am y tro cyntaf erioed dyma gasglu at ei gilydd dafarnau (a rhai clybiau a gwestai) gorau Cymru" medd cyflwyniad y llyfr. 'Sgersli bilîf,' medda finna. 'Er bod Wellington, Deiniolen a Gors Bach yn'o fo, tydi Vic, Dolbadarn Padarn Lec, Fricsan, Prins ac ati ddim yn'o fo.' Ond "Howld on," medda dyn y llyfr, "daw argraffiad arall allan yn cynnwys mwy o dafarnau gorau Cymru erbyn 'Steddfod Dre." Ond Y NI fydd yn sgwennu yn hwnnw. Mae yna apêl gan Robat Gruffydd yr awdur am adroddiadau gan rai o wahanol ardaloedd yng Nghymru am eu tafarnau hwy. Yn sicr, dylai tafarnau bro'r Eco gael eu cynnwys. Beth amdani?

**COGINIO Â GWIN, SEIDR A CHWRW. Elsi Wyn Jones.**
**Cyhoeddiadau Mei. Pris: 60c**

Llyfr hynod gynhwysfawr ar ddefnyddio'r diodydd uchod i goginio . . . cawl, llysiau, gwahanol gigoedd a theisennau.

**CWRT Y GŴR DRWG**
**Roy Lewis.**
**Poced Lyfrau'r Lolfa. Pris:£1.95**

"Nofel Antur/Dditectif orau'r ganrif" medd y Lolfa.

**DY DRO DI**
**Barbara Noach (Trosiad Rhion Pritchard) Gwasg Gomer.**

Nid oes modd prynu'r llyfr hwn yn y siop, ond fe'i cewch mewn llyfrgelloedd yn unig.

Wrth sôn am lyfrgelloedd, gellwch fenthyca unrhyw un o'r llyfrau newydd a restrir isod drwy eich llyfrgell leol neu'r llyfrgell deithiol.

**CARCHAR (Meg Elis)**

**C.I.G. (John Handel)**

**TROEON YR YRFA (J. Williams Hughes)**

**LLIW YN YR ARDD (Llew Huxley)**

**BLODAU UNFLWYDD (D. J. Thomas)**

**YN HOGYN AR LONGAU HWYLIAU (Evan Jones)**

**'RHEN SGŴL (Geraint Jones)**

**Y FAINC**

**Y GYDWYBOD FRYSIOG (Idwal Jones)**

**PERERINDOTA (R. Gerallt Jones)**

**Y FLWYDDYN HONNO (Dyddgu Owen)**

**HUW FOELGRACHEN (Ellis Parry Owen)**

**POBL DDWAD (Ivor Owen)**

# LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU i Sharon Ellis, merch Mr a Mrs Irfon Ellis, Rhes Efrog ar ei llwyddiant yn arholiad canu'r piano Gradd VI dan nawdd Coleg y Drindod Llundain.

PENODIAD – Mae Mrs Olwen Ebbrell (gynt Olwen Rees Evans) wedi ei phenodi yn Ddirprwy Brifathrawes yn Ysgol Wolsgrave Coventry. Bu am ddeng mlynedd yn athrawes yn Ysgol Richard Lee, Coventry.

Mae'n diolch i'r addysg a'r ddisgyblaeth a gafodd o dan y diweddar Mr Madoc Jones a'i staff yn Ysgol Dolbadarn a hefyd yn Ysgol Brynrefail o dan Mr Ieuan Jones a'i staff.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs A.T. Jones, 1 Stryd y Dwr ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau, cymdogion a holl aelodau Pwyllgor y Carnifal am yr holl anrhegion a dderbyniodd eu merch Wendy tra'n frenhines Carnifal Llanberis.

GWEINIDOG NEWYDD – Ordeinir Mr Marcus Robinson ym Mhenmount, Pwllheli nos Fercher, Medi 27 am 7.00 pm. Cynhelir y Cyfarfod Sefydlu yng Nghapel Coch nos Wener, Hydref 13 am 7.00pm.

PRIODASAU – Yn Rhigos, Aberdâr priodwyd Ted Pritchard, mab Mr a Mrs Myrddin Pritchard a Janet Holt. Mae'r pâr ieuanc wedi ymgartrefu yng Nglyn Nedd.

Yng Nghapel Jerusalem priodwyd Lorraine, merch Mr a Mrs Gordon Ward a George Williams, Bangor.

Yng Nghapel Preswylfa ar Orffennaf 1af priodwyd Gwenda, merch Mr a Mrs Lal Jones, Stryd Newton, a Raymond, mab Mrs A. Harding a'r diweddar Mr E. Harding, Lerpwl.

Yn ddiweddar yn y Bala priodwyd Gwilym, mab Mr a Mrs Alwyn Owen, Stryd yr Wyddfa a Llinos Wyn, merch Mrs M. Griffiths, 10 Stryd Fawr, y Bala.

Dymunwn bob hapusrwydd a dedwyddwch i'r parau ieuainc hyn.

LLONGYFARCHION i Mr Tony Pepper, Stryd Newton ar ddod yn 3ydd mewn cystadleuaeth dylunio tu mewn i ystafell yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

MARW – Yn ystod y mis bu farw y cyfeillion canlynol: Mrs Julia Sellars, Bryn Ffynnon, a Mr Eurwyn Roberts, Cambrian Lodge. Hefyd Mrs Annie Jones, priod Mr G. Jones, Pen y Graig, a Mr David J. Jones, 6 Victoria Terrace. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teuluoedd.

CÔR GENETHOD LLANBERIS – Llawenydd mawr i'r ardal gyfan oedd llwyddiant y côr yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Cawsant dair gwobr a chafodd un aelod, Rhian Owen, Stryd Siarlot, gyfartal gyntaf ar yr unawd dan 15 oed. Yr ydym yn ddyledus iawn i Miss C. Williams am ei hymroddiad i'r gwaith a'i diddordeb yn y genethod. Cyfeiliwyd gan Annette Roberts, ac arweiniwyd gan Pauline Williams a Nia Bryan Jones.

DYRCHAFIAD – Pleserus iawn yw cael llongyfarch Maldwyn Lloyd Jones, mab Mrs Jane Jones, a'r diweddar Mr R. Ll. Jones, Peris View ar ei ddyrchafu yn Rheolwr Rhanbarthol Adran Gwerthiant Cwmni Morris & Jones, Caernarfon. Mae Maldwyn a'r teulu yn byw ar hyn o bryd ym Mhwllheli. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

GRADD – Llongyfarchion i Llion Jones, Llwyn Eilian ar ennill ei radd B.Ed.

Hefyd llongyfarchion i Eleri Parry ar ei llwyddiant yn y byd addysgol. Cwblhaodd ei gyrfa yng Ngholeg Caerdydd fel athrawes Gwyddor Tŷ.

Anrhydeddwyd hi gyda gwobr a roir i'r myfyriwr mwyaf llwyddiannus yn y flwyddyn. Pob llwyddiant eto i'r ddau.

CYDYMDEIMLAD – Cydymdeimlwn â Mrs J.O.Jones, Hirfron ar golli ei chwaer yng nghyfraith yn sydyn ym Mae Colwyn.

DIOLCH – Dymuna Sonia Lyn ddiolch i bawb am eu hanrhegion a'u dymuniadau da pan oedd yn forwyn i Frenhines y Carnifal.

YN YR YSBYTY – Da deall fod Nyrs Glenys Parry, Stryd Ceunant a Mrs H. Morris, Rallt Goch yn gwella yn Ysbyty Môn ac Arfon.

Yn ystod yr wythnos ddiwethaf symudwyd Mr D.J.Davies, Victoria Terrace i'r ysbyty ym Mangor.

Brysiwch wella!

GARTRE! – Estynnir croeso'n ôl o'r ysbyty i Mr R. Owen, Maes Eilian, Mr Richard Jones, Glasfryn, Mr William Roberts, 13 Stryd Goodman a Mrs E.A.Williams, Stryd Turner.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs G.H. Evans, (gynt Meira Jones) ddiolch o galon i bawb am eu hanrhegion gwerthfawr a dderbyniwyd. Diolch o galon hefyd am gydweithrediad pawb yn yr ardal dros y blynyddoedd.



PRIODAS – Yng Nghapel Gorffwysfa Llanberis ar Orffennaf 29 priodwyd Mr G.H.Evans, Maesteg, a Miss Meira Jones, merch Mrs H. Jones a'r diweddar Mr O.E.Jones, 14 Stryd Turner. Sefydla'r pâr eu cartref ym Mrynna, Pencoed, Morgannwg Ganol.

CRONFA'R EISTEDDFOD – Caed tymor llwyddiannus iawn o fis Rhagfyr tan fis Mehefin pryd y cyrhaeddodd y Gronfa y swm o £1923.54. Rydym bellach wedi mynd heibio'r hanner ffordd i'r nod o £3750. Mawr hyderwn y bydd y tymor nesaf yma yr un mor llewyrchus.

Nos Wener, Medi 8 bydd Disco yn y Ganolfan. Plant iau o 6.30 tan 8.30 a phlant hŷn o 8.30 tan 10.30. Yna nos Fawrth, Medi 26, trefnwyd noson o 'Beauty Therapy' yng Ngwesty Dolbadarn. Mae posteri yn y siopau yn rhoi mwy o fanylion ichwi, ac mae'r tocynnau ar gael yn awr. Y Pwyllgor hefyd fydd yn gyfrifol am Faes Parcio Dôl y Goeden amser y Dydd Agored yng ngwaith Trydan Dinorwig ar Fedi 30.

Raffl mis Medi fydd bocs mawr o siocled. Os nad yw'n bosibl ichwi ddod i'r gwahanol weithgareddau gallwch ein cefnogi trwy brynu tocyn. Os oes gan rywun syniadau am ddulliau i godi arian byddem yn falch iawn o glywed amdanynt.

Cynhelir y Pwyllgor nesaf yn Festri Gorffwysfa am 8 o'r gloch, nos Fawrth, Medi 5. Mae croeso ichwi yno.

# Ras Pen yr Wyddfa



*Ricky Wilde gyda Garry a Steven Ellis o Gaernarfon. Daeth Garry yn ail yn y dosbarth 11 ac o dan 14, a Steven yn drydydd yn y dosbarth iau. Yn ogystal â rhedeg, Garry yw capten tîm pêl-droed iau Gwynedd.*



*John Trevor Williams – y rhedwr cyntaf o Lanbêr i gyrraedd adref.*



*Steven Ellis (3ydd), Darren Roberts (1af) a Timothy Lloyd (2il), enillwyr y dosbarth iau.*


Yn eisiau ar

CLOGWYN CLIMBING GEAR Ltd.

## Ysgrifennydd/Ysgrifenyddes

gyda

1) Llaw-fer a Theipio Cyflym
2) Gallu i drin ffigurau
3) Dawn i weithio heb oruchwyliaeth

Sgrifennwch at neu ffoniwch

TERRY DeBOO
CLOGWYN CLIMBING GEAR Ltd.,
CLWT-Y-BONT, DEINIOLEN.
Ffôn: Llanberis 551



## R.Hughes Jones a'r Mab

Cigyddion
BRYN AFON, CRAWIA
**LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 3188



CIG BLASUS I'R RHEWGELL
PRISIAU CYSTADLEUOL
DIGON O DDEWIS, LLE HWYLUS I BARCIO

# NANT PERIS

Y TRIP – Diwrnod y trip oedd Gorffennaf 8fed ac er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn yr oedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn y Rhyl a'r bws yn llawn miri a chelfi yn dod adref, a'r plant mawr a bach yn canu'n braf.

CAEL DAMWAIN – Cafodd Mr. Elfed Thomas, 9 Glanrafon ddamwain wrth wneud cymwynas yn ddiweddar. Wrth roi help llaw i wraig yn Llanberis fynd i siop llithrodd a syrthiodd a thorri ei arddwrn. Da gennym ddweud ei fod yn gwella'n iawn erbyn hyn.

PRIODAS – Dydd Sadwrn, Gorffennaf 15 priodwyd Miss Hefina Pritchard, merch ieuengaf Mr a Mrs T.G.Pritchard Bronallt a Mr. Keith Roberts o Lanrug. Cafwyd y wledd briodas yng ngwesty Victoria, a threuliwyd eu mêlrawd yn ardal y Llynnoedd. Byddant yn gwneud eu cartref yn Llanrug. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r pâr ifanc i'r dyfodol.

CROESO ADREF – o'r ysbyty i Mrs Prydwen Pritchard, Llys Awel ar ôl cael triniaeth law-feddygol i'w braich. Da gennym ddeall ei bod hithau yn gwella'n foddhaol ar ôl ei thriniaeth.

CARNIFAL – Nos Wener, Gorffennaf 21 oedd dyddiad y Carnifal eleni, a chafwyd noson hynod o lwyddiannus a phawb yn mwynhau eu hunain. Y beirniaid oedd y Parch. Ganon Alun Jones, Mr Marcus Robinson a Wendy Jones, Brenhines Carnifal Llanberis. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cymorth.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr Meirion Pritchard, Tŷ Isaf ar ei lwyddiant arbennig yn Sioe Caernarfon eleni. Enillodd 27 o wobrau gyda'i ddefaid, gan gynnwys gwobrau 1 a 2 rhoddedig gan Fanc Barclay a Chwpan Coffa rhoddedig gan Major Carter a'i ferch, Gernant, Bontnewydd. Deallwn y bydd Mr. Pritchard yn beirniadu yn Sioe Cerrig y Drudion ddechrau Medi ac mewn arwerthiant yng Nghorwen. Dymunwn iddo bob llwyddiant yn y dyfodol.

DYWEDDIAD – Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Mr Emyr Searell Jones, Gwynant, a'i ddyweddi Miss Esther Wilde o Firmingham ar eu dyweddiad. Deallwn eu bod wedi dyweddïo ar Awst 7, sef ar achlysur pen-blwydd Miss Wilde yn 21 oed. Da deall hefyd fod Miss Wilde yn brysur yn dysgu Cymraeg.

EISTEDDFOD CAERDYDD – Llongyfarchion fel ardalwyr y Nant i Gôr Genethod Llanberis ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Hefyd i Rhian Owen ar ei champ o ddod yn gydradd gyntaf ar yr unawd dan 15 oed. Yn sicr, mae i Rhian ddyfodol fel cantores ac yr ydym yn falch o gael y cyfle yma i'w llongyfarch.

GAIR O DDIOLCH – Byddaf yn ddiolchgar am gyfle yn yr Eco i ddatgan fy niolch i bawb am eu caredigrwydd mawr tuag ataf yn ystod fy arhosiad yn Ysbyty Eryri, Caernarfon yn ddiweddar. Hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau ar Ward Peris am eu gofal a'u caredigrwydd.

Prydwen Pritchard,
Llys Awel.

CYFARCHION PEN-BLWYDD – i Mrs Janet S. Jones, Elidir ar gyrraedd ei 87 mlwydd oed ar Awst 31. Dymunwn iddi lawer blwyddyn eto o iechyd a hoen i fynd a dod yn ein plith.

COLLI TEULU – Dyna fu'n hanes yn y Nant pan ymadawodd Mr a Mrs Alun Williams, Glyn a Richard o'n plith i fyw yng Nghaernarfon. Teimlir chwithdod ar eu hôl ond dymunwn iddynt bob hapusrwydd yn eu cartref newydd.

Er bod Mr William H. Davies, Cae Gwyn wedi ein gadael yr un pryd i fyw gyda'i ferch Mrs Betsi Jones, Grove House y mae yn dal ei gysylltiad agos â ni trwy ei ffyddlondeb i Rehoboth ar y Sul. Nid yw ei sedd byth yn wag a dymunwn iddo yntau bob hapusrwydd yn ei gartref newydd.

TYMOR NEWYDD – Bydd 5 o blant y Nant yn dechrau yn Ysgol Brynrefail ddechrau Medi. Dymunwn bob llwyddiant iddynt ac i'r rhai sydd eisoes yn yr ysgol.

Bydd Llinos hefyd yn dechrau yn Ysgol Dolbadarn a dymunwn iddi hithau ddyddiau ysgol hapus iawn.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Stephen A. Rose, gwesty'r Faenol ar enedigaeth eu merch fach ar Awst 23. Da gennym ddeall fod y fam a'r ferch fach yn dod ymlaen yn iawn.

Llongyfarchion hefyd i Mr a Mrs D. Thomas, tad a mam Mrs Rose ar fynd yn daid a nain am y tro cyntaf. Rhaid peidio ag anghofio hefyd Mr a Mrs J.W.Elis, 8 Glanrafon a'u llongyfarch hwythau ar fynd yn daid a nain am y drydedd waith ar enedigaeth merch fach i Mr a Mrs Geraint Elis, Sycharth, Bethel. Pob bendith i chwi i gyd.

ARHOLIAD LEFEL 'O' – Llongyfarchion i Alwyn S. ac Elwyn S. Jones, Dwyfor ar eu llwyddiant yn Arholiad Lefel 'O'. Deallwn y bydd Alwyn ac Elwyn yn dechrau yng Ngh。oleg Glynllifon ym mis Medi i wneud cwrs mewn amaethyddiaeth. Dymunwn i'r ddau bob llwyddiant yn y Coleg ac i'r dyfodol.

CROESO I'R NANT – Estynnwn ein croeso i Mr a Mrs Rutherford, Julie ac Ian i'n plith. Gobeithio y byddant yn hapus yn Glyn Peris ac yn y Nant, a dymunwn iddynt bob llwyddiant a phob hapusrwydd yn eu cartref newydd.

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i Mr Alun W. Hughes, Hafod Gwynfor sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymunwn iddo wellhad llwyr a buan.

# Tan-y-Coed

Llongyfarchiadau i Carol Ann Jones, Pant Clyd a Dylan Bryn Jones, 3 Tai Tan-y-coed, disgyblion yn Ysgol Brynrefail, ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Lefel O.

Bu Carol Ann yn llwyddiannus hefyd yn y Sioe Geffylau ym Menllech ar Awst 22ain. Enillodd y drydedd a'r bedwaredd wobr yno.

Yn Sioe Amaethyddol Caernarfon y daeth llwyddiant i Margaret Ellen Roberts a'i chwaer Janice Roberts o Dainewyddion. Enillodd Margaret yr ail wobr am wneud Cacen Fictoraidd Addurnedig, a Janice y drydedd wobr am wneud Rhol Swistirol mewn dosbarth agored.

Brawychwyd Mrs Nellie Wyn Thomas, 1 Tai Bryngwyn a Mrs Kathleen Jones, 3 Maesgerddi â'r newydd trist fod eu cyfnither a'i phriod Mr a Mrs Plester o Swydd Warwick wedi marw trwy ddamwain pan yn teithio yn eu modur ar Awst 19. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu i gyd.

CROESO – Mae Mr a Mrs John Williams o Montreal a'u tair merch Helen, Mary ac Ann yn treulio mis o wyliau yma yn Nhan-y-Coed Isaf. Y mae Mr Williams, sy'n enedigol o Ddeiniolen, yn fab i'r diweddar Dr. J. Williams a Mrs Hannah Williams, Crawia Terrace.

# PENISARWAUN

LLWYDDIANT – Dymunwn longyfarch Rheon Larsen, Llygad-yr-Haul ar basio ohono arholiad ysgrifenedig mewn cerddoriaeth Gradd I dan nawdd Coleg y Drindod, Llundain. Enillodd Rheon dystysgrif anrhydedd.

EGLWYS ST. HELEN
UNDEB Y MAMAU – Cafwyd cyfarfod ar nos Lun Gorffennaf 10, gyda'r Ficer yn cymryd y gwasanaeth. Hefyd, croesawodd y gŵr gwadd, Mr Glyn Thomas, Dinorwig. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am gymdeithas mewn ardaloedd. Diolchwyd iddo gan Mrs Edwards, y Ficerdy a Mrs Mowll.

Cydymdeimlwyd â Mrs O. Thomas Tai Newyddion a Mrs F. Griffiths yn eu profedigaeth.

Rhoddwyd croeso i Miss Hughes un o hen frodorion y pentref ond yn awr yn trigo yn Sussex. Bu'n aros yn Elidir View tra'n aros yma.

Rhoddwyd y te gan Mrs G. Lewis a diolchodd Mrs N.M.Pritchard iddi.

GWELLHAD BUAN – Balch ydym o weld Trefor Jones, 6 Bryntirion o gwmpas eto ar ôl bod yn yr ysbyty ddwy waith.

Nid yw Mrs M.J.Roberts, Tai Croesion wedi bod yn dda yn ddiweddar. Brysiwch wella, eich dau.

SWYDDI NEWYDD – Ein dymuniadau gorau i Miss Gwenda Griffith a Miss Beryl Griffith yn eu swyddi newydd.

YSGOL NEWYDD – Dymuniadau gorau hefyd i bedwar o blant yr Ysgol Sul yn eu hysgol newydd: Heather, Karen, Alun ac Alwyn.

CRONFA'R FYNWENT – Carai'r ficer ddiolch am y rhoddion tuag at y gronfa.

DIOLCHIADAU – Ein diolchiadau i Norman D. Rowlands a Douglas Jones, Tŷ Gwyn am eu cymorth yn y gwasanaeth yn yr Eglwys ar nos Sul a hwythau ar eu gwyliau.

GŴYL PENISARWAUN
Daeth yr Ŵyl i ben gyda Helfa Drysor lwyddiannus iawn wedi ei threfnu gan Gwynfor Roberts, Bryn Eglwys. Diolch iddo ac i'r hanner cant a ddaeth ar yr helfa. Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran a phawb a gefnogodd mewn unrhyw ffordd.

SIOE GOGLEDD CYMRU – Ar ran Cangen Penisarwaun o Sefydliad y Merched enillodd Mrs Eluned Jones, Cae Corniog 'Rosebowl' gan iddi ennill y nifer uchaf o farciau mewn cystadleuaeth coginio. Enillodd hefyd gwpan am y nifer uchaf o bwyntiau fel unigolyn. Llongyfarchiadau calonnog iddi oddi wrth y pentrefwyr.

CLWB YR HEULWEN – Dydd Mawrth diwethaf yn y cyfarfod misol cafwyd hanes rhai o hen gymeriadau y pentref gan Mrs Rees Thomas. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 25 o dan ofal Mrs Porter.

MARWOLAETH – Bu farw Mr Owen Elwyn Jones, gynt o Tŷ Gwyn, Waun, Penisarwaun.

TAITH GERDDED – Yr oedd y Daith Gerdded a drefnwyd fel rhan o weithgareddau Gŵyl Penisarwaun yn llwyddiant. Gydag ymdrech y cerddwyr a'r cefnogwyr daeth tua £60 o elw i'r Ŵyl.

MARW YN AMERICA – Cydymdeimlad y fro i deulu Mr H.E.Roberts, Vine Cottage ar farwolaeth ei frawd Robert Owen Roberts yn America.

MARW YM MAE COLWYN – Bu farw yn sydyn iawn ym Mae Colwyn y mis diwethaf Mr Dennis Richards, brawd y diweddar Parchedig R. Wyn Richards a chefnder Nathan Jones, Gwynant, Tai Brynhyfryd. Cydymdeimlwn â'r teuluoedd.

ARHOLIADAU – Llongyfarchwn ein pobl ifainc am lwyddo cystal yn eu harholiadau Lefel A, Lefel O, T.A.U. a chydag arholiadau Coleg Technegol Bangor. Dyma'r enwau: Margaret June Adlam; Irfon Hughes; Bronwen R. Hughes; Anwen Jones; Gwenllian Jones Gwynfor Jones; Marian Jones; Cai Larsen; Ffion Larsen; Trystan Larsen; Tony Oulton; Nia Parry; Jonathan Rowlands; Janice Williams.

HEN NAIN UNWAITH ETO – Rydym yn falch o glywed bod Mrs E. Roberts, 12 Llys y Gwynt yn hen nain am yr ail waith.

WEDI GWELLA – Mae'n dda gennym weld Avril Williams ac Ann Evans, Bryn Eglwys wedi gwella. Hefyd plant Ann sydd wedi cael y Frech Ieir.

LLWYDDIANT MEWN SIOEAU – Gwnaeth Delyth Roberts, Weirglodd Goch yn dda iawn yn Sioe Gogledd Cymru. Cafodd y drydedd wobr am wneud teisennau pili pala, cyntaf am wneud anifail allan o lysiau a chyntaf am wneud 'collage'. Delyth hefyd enillodd gwpan ieuenctid i rai dan 16 oed.

Bu W. H. Griffith, Cros Waun hefyd yn llwyddiannus iawn mewn sioeau yn ystod y gwanwyn a'r haf. Yn Sioe Frenhinol Cymru daeth ei gaseg ddwyflwydd yn ail. Yn Sioe Caerwrangon ac Amwythig daeth y gaseg yn gyntaf. Daeth yn gyntaf eto yng Nghricieth ac enillodd y bencampwriaeth yno hefyd ac yn Sioe Pwllheli. Yn Sioe Gogledd Cymru yng Nghaernarfon enillodd gwpan i'w chadw am ennill y 'Reserve Championship' a'r Bencampwriaeth lau am dair blynedd yn olynol.


**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

Gwaith Coffâol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

FFÔN
CAERNARFON 2898

# BETHEL

LLONGYFARCHIADAU i Colin Jones Min Awel ac Euron Griffith, Crud yr Awen ar gyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed. Roedd Colin yn cael ei benblwydd ar Awst 12fed a bydd Euron yn ddeunaw ar Fedi 7fed.

LLONGYFARCHIADAU i Jean ac Emyr Jones, Wenallt ar enedigaeth mab bychan. Fe anwyd Gethin, brawd i Lliwedd ddydd Gwener, Awst 11.

RHODD I'R PENTRE — Yn ddiweddar fe gynhaliwyd diwrnod coffi yn Llys Gwynedd i gasglu arian tuag at waith ymchwil i Glefydau'r Arennau. Bu'r diwrnod yn llwyddiant mawr ac fe gasglwyd cyfraniad teilwng iawn o'r pentref. I ddangos ei gwerthfawrogiad mae Mrs Hughes, Llys Gwynedd wedi prynu tebot at wasanaeth y pentref. Bydd y tebot yn cael ei gadw yn y Neuadd.

LLONGYFARCHIADAU i Geraint ac Anne Elis, Sycharth ar enedigaeth merch. Ganwyd Gwenan, chwaer i Angharad a Manon yn ysbyty Dewi Sant ddydd Sadwrn, Awst 19.

CLWB 100 — Enillwyr y Clwb 100 fis Gorffennaf oedd Mrs Mair Jennens, Gors Bach (£20), Mrs A.M.Williams, 3 Cremlyn (£10), Mr Gwynfor Morris, Rhosgadfan (£5) a Mr Gwyn Evans, Banc y Midland, Caernarfon (£5). Ym mis Awst yr enillwyr oedd Megan Evans, Hafod (£20), Mr. Merfyn Hughes, Twll Clawdd (£10), Mrs Margaret Hughes, Snowdonia (£5), Mrs Lena Thomas, 9 Cremlyn (£5). Erbyn hyn mae Bethel, Llanddeiniolen a Seion wedi cyfrannu £850 i gronfa'r Eisteddfod. Y nod yw £2,250.

ARHOLIADAU — Ym mis Awst, fel arfer, daeth amser hir o ddisgwyl a phoeni i ben, gyda siom i rai, llawenydd i eraill. Dymunwn y gorau i holl blant yr ardal a fu'n sefyll arholiad o unrhyw fath yn ystod yr haf.

NEWID BYD — Dydd Llun, Medi 4 bydd nifer o blant y pentref yn dechrau ar eu gyrfa yn Ysgol Brynrefail a Chaernarfon a bydd criw newydd yn cychwyn yn yr ysgol yn bedair oed.

DYMUNIADAU GORAU i deulu Llys Myfyr yn eu bro newydd. Mae Mr Eryl Davies wedi gwasanaethu yng Nghapel Bethel ers dros bedair blynedd bellach. Bydd Mr a Mrs Davies ac Elan yn symud i Lyn Nedd ar ôl ei wasanaeth olaf ym Methel ar Fedi 10. Dymunwn bob llwyddiant a bendith i'r teulu yn eu cartref newydd ac i Mr Davies yn ei weinidogaeth.

TRIP — Dydd Iau, Awst 24 bu tua hanner cant o ferched a phlant y pentref ar drip i Ynys Môn. Bu'r trip yn Llangefni, Benllech a South Stack gan orffen gyda phryd o fwyd yn y Gaerwen.

MERCHED Y WAWR — Nos Fercher, Medi 13 bydd tymor Merched y Wawr yn ailagor, gyda chyngerdd gan Barti Glannau Menai. Croeso i aelodau newydd.

Y PARCH. GEORGE BREWER — Dydd Mercher, Awst 23 brawychwyd y pentref pan glywyd am farwolaeth y Parchedig George Brewer. Fe gyfarfu Mr. Brewer â damwain pan oedd ar ei feic modur ger Amlwch.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Nos Wener, Hydref 6 am 7.30 fe gynhelir Cyngerdd gyda Chôr Gyfynys, Parti Cydadrodd y Rhos, Ellen Ellis, Bili Evans ac Ann Hopcyn yng Nghapel Cysegr. Arweinydd y noson fydd Mr. Arfon Williams a'r llywydd fydd Miss Ann Williams, Cilgwyn. Bydd y tâl mynediad i oedolion yn 40c a phlant yn 20c gyda'r elw yn mynd at gronfa leol yr Eisteddfod.

DYWEDDÏO — Mae Sulwen Owen, merch Mr a Mrs Evan Owen, 4 Corra Linn wedi dyweddïo gyda Mr Tony Thomas, Dôl Elidir, Llanberis. Cyngiwn ein dymuniadau gorau i'r ddau.

LLWYDDIANT GYDA CHEFFYLAU Bu Mr Idwal Morris, Perthi a Mr Eifion Williams, Bryn Pistyll yn llwyddiannus iawn yn arddangos ceffylau mewn sioeau amaethyddol yn ystod yr haf. Bu Idwal yn arddangos Maes Mynanach Lois, merlen fynydd teip cob ac fe gafodd gyntaf yn Llanerchymedd, Pwllheli a Sioe Môn, ac roedd yn ail yn Sioe Caernarfon.

Cafodd Winnswood Little Acorn, stalwyn Eifion y wobr gyntaf a phencampwriaeth y dosbarth (Adran A) ym Mhwllheli, Croesoswallt, Eglwys Bach a Chaernarfon, ac roedd yn gyntaf yn Sioe Môn hefyd.

PEN-BLWYDD — Dydd Sul, Gorffennaf 2 roedd Mrs Mary Ann Jones, Corra Linn yn 83 oed. Llongyfarchiadau iddi. Yn ddiweddar bu Alfred Jones, mab Mrs Jones, ar ei wyliau o Awstralia yn edrych amdani.

CYDYMDEIMLO — Er pan ymddangosodd yr Eco ddiwethaf bu farw Mr Maldwyn Roberts o Lanrug a oedd yn Arweinydd Clwb Ieuenctid Bethel. Bydd colli arweiniad cadarn Maldwyn yn golled fawr i ieuenctid y pentref.

LLWYDDIANT CERDDOROL — Dymunwn longyfarch Janice Price, Llys Gwynt, Llanddeiniolen yn ei llwyddiant rhagorol ar basio arholiad ysgrifenedig mewn cerddoriaeth Gradd IV, gyda 98 o farciau allan o 100, ac ennill tystysgrif anrhydedd. Cynhaliwyd yr arholiad dan nawdd Coleg y Drindod, Llundain.

# BRYN REFAIL

NEWID SWYDD — Pob llwyddiant i Mrs Menna Williams (merch Mrs Gladys Jones, Hafan) yn ei swydd newydd fel swyddog nyrsio dros ysbytai Bronygarth a Madoc ym Mhorthmadog. Yr oedd eisoes yn y swydd o Fetron ym Mronygarth, wedi bod yn weinyddes leol yn ardal Penrhyndeudraeth am bum mlynedd.

NEWID CARTREF — Pob lwc i Hywel a Gwennie Morris, a'r teulu, sydd bellach wedi cartrefu yng Nghwm-y-glo a chroeso cynnes i Gwyn a Pat Mowll sydd hefyd wedi cartrefu ym Mryn Llwyd.

Pob lwc hefyd i Mrs Jennie Roberts, Creigle yn ei chartref newydd yng Nghaernarfon.

BEDYDD — Dydd Sul, Gorffennaf 30 bedyddiwyd Martin Glyn Owen, Tros yr Afon. Gweinyddwyd gan y Parch.. H.G.Parri, Caernarfon.

GARTRE O'R YSBYTY — Mrs. E. Wellsby, Tremallt ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol. Dymunwn adferiad buan iddi a hefyd i Mrs R Pritchard, Glyn Afon a dorrodd ei braich. Hefyd, dymunwn lwyr iachâd i Mrs E. Jones, Bron Eryri, sydd i dderbyn triniaeth yn ysbyty Bryn Seiont.

CLWB PEDWAR UGAIN — Enillwyr mis Mehefin a mis Gorffennaf.

Mehefin 3 : (1) Carol Houston, 2 Trem Eilian. (2) Colin Wager, Swyddfa'r Post. (3) Dwynwen Owen, Tros yr Afon.

Mehefin 10: (1) Elwyn Jones, 1 Trem Eilian. (2) Glyn Owen, Tros yr Afon. (3) Eleri Roberts, Glandwr.

Mehefin 17: (1) Ann Parry, Gorffwysfa. (2) Dewi Jones, 9 Trem Eilian. (3) Mrs Owen, 10 Trem Eilian.

Mehefin 24: (1) Sylvia Williams, Llwyn Coed. (2) Dilys Evans, Min y Don. (3) Eirlys Williams, Marino.

Gorff. 1: (1) Jinnie Roberts, Glandwr. (2) Ken Jones, Cae Coch. (3) Owen Roberts, Llwyn Helyg.

Gorff. 8: (1) Mrs Hasson, Bryn Myfyr. (2) Mrs J. Williams, Bryn Melyn. (3) Islwyn Williams, Godre'r Coed.

Gorff. 15: (1) Elsie Jones, 9 Trem Eilian. (2) Eifion Roberts, 8 Trem Eilian. (3) Maldwyn Jones, 1 Tai Orwig.

Gorff 22: (1) Eirianwen Evans, 6 Trem Eilian. (2) Sheila Williams, Bryn Hyfryd. (3) Bobby Roberts, Penllyn.

Gorff. 29: (1) Jackie Jones, 1 Tai Orwig. (2) Len Parry, Gorffwysfa. (3) Rhian Jones, 3 Trem Eilian.

Hefyd dan nawdd y clwb cynhaliwyd Mabolgampau a Gemau Giamocs ddydd Sadwrn, Awst 19. Yn y Gemau Giamocs dewiswyd 4 tîm o 6 gydag Anita Jones, Carol Houston, Carl Hassan a Gerallt Jones yn gapteiniaid. Cafwyd gornest wych a hwyl fawr. Er i Carl Hassan ennill y ras fawr ar y diwedd, cariwyd y dydd gan dîm Anita Jones. Terfynwyd y dydd yng Ngwesty Victoria, Llanberis lle cafwyd swper a dawns yng nghwmni'r Disco Atomic. Enillwyd y raffl, sef rhodd o waith Mrs Pat Jones, Cae Coch (llun olew hardd o olygfa wych Penllyn) gan Mrs L. Boyd, Cae Canol, Fachwen, gyda thocyn rhif 89 (gwyrdd). Gwnaed elw o £65.70 .

CLWB YR HENOED — Ar Fehefin 29 cafwyd trip i Bentraeth a mwynhawyd swper yng Ngwesty Star, Gaerwen.

Gorff. 11 cafwyd noson ddifyr yn Nhy Glas yng ngofal Mrs Nellie Williams, Glanffrwd. Rhoed y te gan Mrs G. Jones, Hafen, Mrs E.M. Roberts, Bronallt a Miss N. Roberts, Deiniol House.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Yng nghyfarfod Gorffennaf cafwyd adroddiad o'r Gynhadledd flynyddol gan Mrs Howdle o Lanberis. Darparwyd y te gan Mrs H.J.Jones a Mrs G.Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Jennie Hughes, ac fe'i henillwyd gan Mrs Howdle.



LLWYDDIANT — Ym Mhrifysgol Aberystwyth enillodd Ceris Wyn Williams, 3 Tai Orwig, cyn-ddigybl o ysgol Brynrefail, radd anrhydedd (dos.1) mewn Economeg ac Ystadegau. Anrhydeddwyd ef hefyd gyda Gwobr Goffa Adam Smith, gwobr a roddir i'r efrydydd mwyaf llwyddiannus bob blwyddyn. Mae Ceris am barhau gyda'r un gwaith mewn cwrs uwchradd yn Rhydychen.

Llongyfarchiadau hefyd i Mary Walton, Rhydau Duon ar ennill cystadleuaeth arlunio dan nawdd cwmni Kellogs. Deëllir fod y llun o safon uchel iawn.

LLWYDDIANT CERDDOROL — Mewn arholiad diweddar bu Mair Wyn Evans, Ty'n Buarth yn llwyddiannus gyda chanu'r piano Gradd VI. Llongyfarchiadau i Mair a hefyd i Alwen Jane Jones, 1 Tai Orwig ar ei llwyddiant mewn arholiad ysgrifenedig Gradd I gydag anrhydedd.

YMWELIAD — Daeth Mr a Mrs Paul Gablik, Toronto, Canada (gynt o Frynrefail) adref i'r hen fro am rai dyddiau ddechrau mis Gorffennaf. Arhosent yn Dinorwic House gyda chwaer Mrs Gablik, sef Mrs M.E. Williams,


## Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

## Llanberis

Perchennog Aneuryn Jones

FFÔN : LLANBERIS 277


MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd CANOLFAN DRECIO Holwch am ein telerau rhesymol



AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO ...............

*Eric Morris*



## Bwsiau Arfon LLANRUG

FFÔN WAUNFAWR 254

# CWM - Y-GLO

Y CARNIFAL — Gan fod adroddiad o raglen a buddygwyr y carnifal a drefnwyd eleni eto gan y Clwb Ieuenctid wedi eu cyhoeddi eisoes, teimla Mr Dafydd Price, yr arweinydd, mai ofer fyddai eu hailgyhoeddi yn yr Eco. Yr un pryd, dymuna ddiolch yn bersonol ac ar ran y Clwb am y gefnogaeth a gafwyd yng Nghwm-y-glo ac o'r tu allan i'r holl weithgareddau.

Carem ninnau fel pentrefwyr fynegi ein gwerthfawrogiad o waith da'r ieuenctid yn trefnu wythnos ddiddorol a difyr, a hynod lwyddiannus ar ein cyfer. Diolch yn fawr. Gwnaed elw o dros £400.

LLWYDDIANT — Bu'r canlynol yn llwyddiannus yn arholiadau'r ysgol: Lefel O a T.A.U.: Jacqueline Allen, Min y Nant, Ruth M.Jones, Meillionen, Judith Orritt, Moranedd, Dylan Morris, 2 Stryd Newydd a Ieuan Rowlands, Talafon. Lefel A: Delyth G. Williams, Nant Forgan. Bydd Delyth yn dechrau cwrs mewn Celf a Chrefft yng Ngholeg Poletecnig Lerpwl ddiwedd Medi. Dymunwn lwyddiant pellach iddynt i gyd.

EIN BRIDWYR — Dymunwn longyfarch ein bridwyr lleol sydd wedi cipio cymaint o wobrau eleni eto mewn sioeau ledled y wlad. Maent yn rhy niferus i fanylu arnynt, ond 'rydym yn ymfalchio yn eu llwyddiant.

MARWOLAETHAU —
MR. MORGAN PRITCHARD — Bu farw Mr Morgan Pritchard yn sydyn iawn yng nghartref ei chwaer, Mrs Cissie Hughes, yn Llanberis. Ef oedd yr olaf o feibion Morgan a Lisa Pritchard, Bryn Crwn gynt. Un parod ei gyfarchiad a'i wên. Bydd chwithdod o'i golli. Cydymdeimlwn â'r teulu, sydd erbyn hyn ar chwâl, yn eu galar.

MRS ELLEN MORRIS — Collwyd un arall o blant y pentref ym marwolaeth Mrs Ellen Morris, Celynen House. Merch oedd i'r diweddar Robert ac Ann Phillips, Pantafon. Bu fyw am flynyddoedd yn Nhrefriw, ond daeth yn ôl i'w chynefin wedi colli ei phriod. Oherwydd ei bod braidd yn fethedig, ni chawsom lawer o'i chwmni yn ddiweddar, ond byddai wrth ei bodd pan alwai ei hen gyfeillion am sgwrs, ac mae ei lle hithau'n wag. Cydymdeimlir â Mr a Mrs Aled Evans, Tŷ Newydd — merch a mab yng nghyfraith, Melvyn, ei ŵyr a Mair, ei thri mab, a Mr a Mrs John Phillips, 3 Groeslon, ei hunig frawd sydd yn aros, ac â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

DIOLCH — Dymuna Mr a Mrs Ifor Lloyd Roberts, 8 Craig y Don ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y llu anrhegion a llongyfarchion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Elen Lloyd.

MEWN YSBYTAI — Mae Mr Gwilym Evans, Terrace mewn ysbyty ers rhai wythnosau bellach, wedi iddo gael ei daro'n wael yn ddisymwth. Yng Ngallt y Sil y mae ar hyn o bryd, a da gennym ddeall ei fod ychydig yn well.

Cafodd Mr Owen Williams, 5 Dolafon driniaeth lawfeddygol yn ysbyty Broadgreen, a da clywed fod tebygrwydd y caiff symud nes adref i ysbyty Eryri yn y dyfodol agos.

Mae Mrs Nan Rowlands, Bodafon, wedi cael ei galw am driniaeth i Ysbyty Gobowen. Anfonwn ein cofion a dymuniadau gorau'r pentref am wellhad buan i chwi eich tri.

GWAELEDD — Derbyniodd Mrs Eluned Parry, Craig y Don anafiadau mewn anffawd yn ei chartref, a bu mewn ysbyty am gyfnod. Da gennym ddeall ei bod lawer yn well erbyn hyn.

Hyderwn fod Mrs Gladys Williams, Ashley House a Mrs Trefor Owen, Glasfryn a gymerwyd yn wael, y naill yng nghartref ei merch, a'r llall yng nghartref ei mab, yn dal i wella. Mae Mrs L. Phillips, 3 Groeslon a Mrs K. Owen, Isfryn wedi bod yn cwyno'n ddiweddar. Iachâd llwyr a buan fo i chwithau.

CYDYMDEIMLO — Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mr a Mrs Leslie Orritt, Moranedd ar farwolaeth mam Mrs Orritt yn Llanberis (Mrs Owen, 8 Maes Derlwyn). Hefyd a Mr a Mrs Wyn Rowlands, Glan 'Rafon — wyres i Mrs Owen, a'i phriod, colled fawr i Judith, Nigel, Cynthia a Neil o golli nain garedig.

PENODI I SWYDD — Llongyfarchiadau i Mrs Noreen Manning, Craigle, ar ei phenodiad yn bennaeth yr adran Saesneg yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

YMUNO Â'R FYDDIN — Yn ddiweddar, ymunodd Carl, mab Mr a Mrs Green, Groeslon â'r Fyddin, a deallwn fod Gwynedd, mab hynaf Mr Wyn Morris, 2 Stryd Newydd wedi mynd i weithio i'r Alban. Pob lwc i'r ddau yr eu cylch newydd.

ADRE'N ÔL — Pleser yw gweld dau a fagwyd yn y Cwm wedi dychwelyd adref. Croeso cynnes i Mr a Mrs Hywel Morris a'r teulu i Dan y Graig. Buont yn byw ym Mrynrefail am flynyddoedd. Balch ydym o'u cael yn ôl.

GARDDWEST — Cynhaliwyd Garddwest yng Nghastell Bryn Bras ar Awst 19 gan Bwyllgor Cwm-y-glo o Eisteddfod '79. Rhoddwyd benthyg y castell hardd, sydd hefyd yn gartref i ddau deulu, gyda'i erddi tlws, naturiol yn hollol ddi-dâl i'r Pwyllgor lleol er budd yr Eisteddfod.

Dan wenau'r haul agorwyd yr arddwest gan Mr Eurwyn Morris, dirprwy Faer Caernarfon a chyflwynwyd teyrnged o flodau i Mrs Gray Parry, Bryn Bras, gwestwraig y dydd, gan Cynthia Orritt. Cymerwyd rhan gan ddawnswyr Morris Llanrug, ac edrychent yn hynod o ddeniadol yn eu coch a gwyn ar y lawntiau gwyrddion.

Atyniadau eraill oedd cyfle i weld rhan o'r castell, reid ar ferlod, arddangosiad o adar, cwningod a chŵn, y rhain i gyd yn enillwyr sioeau di-rif, gyda detholiad deniadol o'r tlysau a enillwyd ganddynt, stondinau o bob math, a lluniaeth. Mae enwau enillwyr y raffl wedi eu cyhoeddi'n barod. Carem, fel Pwyllgor, ddiolch yn arbennig i'r rhai canlynol: teulu Bryn Bras am eu cydweithrediad a'u brwdfrydedd (amhosibl datgan ein gwerthfawrogiad; 'does gennym ond dweud yn syml 'Diolch o galon am bopeth'); Mr Eurwyn Morris am bob cyfraniad; y bridwyr lleol; Mr Ken Pritchard, Groeslon am gynorthwyo a threfnu'r babell; Mr Aneurin Jones, Gwesty Dolbadarn; Mr a Mrs W. Jones, Gwesty'r Snowdon; Mr Eric Morris, Tan y Coed; Mr Berwyn Hughes; Mr Dafydd H. Rowlands; Mr Owen Jones, Bro Rhyddallt, heb anghofio Mrs Williams a'i Dawnswyr medrus o Lanrug. I ddiweddu, diolch i bobl bro'r Eco am ein cefnogi ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y fenter. Gwnaed elw o £500.


Mae rhywbeth at ddant pawb
yn Rhestr Testunau
EISTEDDFOD GADEIRIOL
DYFFRYN OGWEN
Tachwedd 17 ac 18
6ch yn y siopau llyfrau Cymraeg
neu anfoner amlen stamp at yr
Ysg. Cyffredinol:
Emlyn Jones, 5 Maes Coetmor,
BETHESDA, Bangor


## HOGIA PONC TEILIWR



Tynnwyd y llun yma tua 1951-53. Dyma enwau'r rhai yr wyf yn eu cofio:

RHES GYNTAF: Alun, Llanberis; D. Owen, Deiniolen; A. Owen, Llanberis; M. Lewis, Deiniolen; H. Morris, Rhianfa, Clwt-y-bont.

AIL RES: G. Lloyd, Llanrug; R. Williams, Deiniolen; R. O. Jones, Llanberis; Sam Williams, Saron; F. Williams, Waunfawr; J. Morris, Bethel; Edward Williams, Deiniolen.

TRYDEDD RES: Goronwy, Waunfawr; R. Williams, Deiniolen; H. Davies, Dinorwig; G. Evans, Deiniolen; R. Hughes, Llanberis; Alun, Rhosgadfan; Huw, Bethel.

YN OLAF: O. Morris, Deiniolen; R. John, Llanrug.

## ERNEST JONES PH.C

Er mai brodor o Riwlas oedd Ernest Jones, PHC, 'roedd yn adnabyddus iawn i ninnau ym mro Eco'r Wyddfa. Tristwch mawr felly oedd clywed am ei farwolaeth yn ddiweddar, a chydymdeimlwn i'r eithaf â'r teulu. Dyma deyrnged pobl Môn i'r Fferyllydd annwyl o Langefni.

Mae'i Wyrfai hebddo i Morfudd,
Hithau'r siop yn ddieithr sydd.
Mowrniwch am gawr yn Smyrna
A'r dref am fynd y dyn da.

*Y Prifardd T. Parry Jones, Malltraeth.*

Drwy ei waith bu'n rhan o'r dref, — a'i orau'n
Cyffurio sawl cartref;
Hwnnw a wyddai ddioddef,
I hwnnw hoff yw ei enw ef.

*T. D. Roberts, Llangefni.*

**ER COF ANNWYL AM ERNEST**
**Yr hwn a'n gadawodd Mai 29, 1978**

Gwir halen y ddaear oeddet –
Y bachgen o Riwlas draw;
Cristion mewn gwisg ffisigwr
A'th grefydd yng ngwaith dy law.

Un parod â'th air cysurlawn,
Cyfaill y cleifion a'r trist:
'Yn gymaint a'i wneuthur i eraill'
Y gwnaethost i Iesu Grist.

Mor wag ydyw 'Gwyrfai' hebot!
Gwag ydyw'r Siop a'r Sêt Fawr;
Erys yr hiraeth amdanat
Hyd ddydd yr Aduno mawr.


Diolch i Dduw am dy fywyd
A'th gwmni am funud awr;
Boed tawel dy huno mwyach
Ym mreichiau'r Ffisigwr Mawr!

*Lowri Gwynfor Evans.*



Plant Deiniolen yng Nghyngerdd y Carnifal


Simneiau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 4781

# SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

NEWIDIADAU YN STAFF YR YSGOL

Diwedd y tymor diwethaf daeth gyrfa Mr Michael Harris yn yr ysgol i ben. Bu'n bennaeth ar adran Saesneg yr ysgol am y rhan fwyaf o'r pum mlynedd y bu'n dysgu yma.

Dymunwn lwc dda i Michael yn ei swydd newydd fel pennaeth adran Saesneg Ysgol Gyfun Llangefni, ac estynnwn groeso cynnes i'w olynydd, Mrs Noreen Manning, Cwm-y-glo.

Croeso hefyd i ddau athro arall sy'n dechrau'r tymor hwn. Bydd Mrs Rhian Ellis, Waunfawr yn dechrau fel athrawes pynciau cyffredinol a cherddoriaeth a bydd Mr Harry Jones, Bangor yn dechrau fel athro Hanes a Daearyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Diwedd y tymor diwethaf hefyd gwelwyd ymddeoliad un o ferched pwysicaf yr ysgol, sef Mrs Edna Jones o Fangor, coginwraig yr ysgol. Bu Mrs Jones yn gweithio am 31 o flynyddoedd gyda'r Gwasanaeth Bwyd Ysgolion, ac yr oedd wedi bod yn gweithio yn Ysgol Brynrefail ers pum mlynedd. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus i Mrs Jones ac estynnwn groeso cynnes i'w holynydd Miss Dilys Parry o Gaernarfon.

TRIPIAU DIWEDD TYMOR

Aethpwyd â pharti o'r ysgol i wylio Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ar y 5ed o Orffennaf. Arweinyddion y trip oedd Miss Elizabeth Williams, Mrs Katherine Owen a Mr Howyn Pritchard Jones.

Ar y 7ed o Orffennaf bu rhai o'r Pedwerydd Dosbarth yn swyddfeydd y 'North Wales Weekly News' yng Nghyffordd Llandudno. Wedi ymweld â'r swyddfa aethant ymlaen i ymweld ag Ysgol Aberconwy. Daeth rhai o ddisgyblion Aberconwy i ymweld ag Ysgol Brynrefail ar Orffennaf 11. Trefnwyd y gweithgareddau hyn gan Mrs Mary Hughes.

Cychwynnodd rhai o blant dosbarthiadau 2, 3 a 4 yn gynnar fore Sul y 9ed o Orffennaf i ymweld a Chaerfaddon (Bath), Caerleon a'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Daethant yn ôl yn hwyr nos Lun! Arweinyddion y trip oedd Mrs Ann Owen, Mrs Mari Williams a Mr Selwyn Allsup.

Dydd Mawrth, Gorffennaf 11 bu rhai o blant dosbarthiadau 2 a 3 yn ymweld ag Eglwys Clynnog lle cawsant sgwrs ddiddorol gan y Parchedig Idris Thomas, brodor o Ddinorwig. Aethant ymlaen o Glynnog i Aberdaron a Phwllheli. Arweinyddion y trip oedd Mrs Margaret Griffiths a Miss Elizabeth Williams.

## BRENINESAU'R CARNIFALAU



*BRENHINES DEINIOLEN*
*Eifiona Williams a'i gosgordd yng Ngharnifal Deiniolen.*



*BRENHINES LLANBERIS*
*Wendy Jones a'i gosgordd yng Ngharnifal Llanberis.*

PLANT LLANRUG YNG NGWLAD BELG

Dyma fwy o hanes plant ysgol gynradd Llanrug fel yr addawyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco.

Cyrraedd yr ysgol yn baciog erbyn chwarter i bump. Roedd llawer o'r plant yno yn barod gyda'u rhieni a rhai o'r athrawon. Pan gyrhaeddodd y bws rhoddodd pawb eu bagiau yn cefn cyn mynd i mewn iddo. Roedd pawb yn gyffyrddus nes i rywun sylwi fod dwy eneth ar ôl. Dwy oedd yn byw yn ymyl ein tŷ ni. Felly aeth dad yn y car i chwilio amdanynt. Cyn hir daeth yn ôl gydag un ohonynt. Arhosodd y bws beth amser ac yna daeth yr eneth arall. I ffwrdd â ni wedyn. Cysgais am lawer o'r ffordd. Tua hanner awr wedi deg fe arhosodd y bws er mwyn rhoi cyfle i ni fynd i'r geudai. Arhosodd y bws eto ymhellach ymlaen er mwyn i ni gael cyfle i fwyta y bwyd oeddem wedi dod gyda ni. Pan arhosodd y bws y drydedd waith yr oedd yn amser i ni gael cinio. Cawsom awr o amser i hynny. Yna ymlaen â ni a chyrraedd Dover erbyn tua thri o'r gloch.

Yna aeth â ni ar y llong a'n cario drosodd i Calais yn Ffrainc. Roedd y bws ar y ffordd unwaith eto, a ninnau ar ein ffordd i wlad Belg. Arafodd y bws er mwyn i ni gael gweld beddau yn Dunkirk. Beddau milwyr a laddwyd yn yr ail Ryfel Byd.

Wedi cyrraedd ein gwesty, Ter Maeuwenhof, cawsom yr allweddi i'n hystafelloedd ac aeth pawb â'i bethau iddynt. Roeddynt yn ystafelloedd braf iawn. Wedi rhoi popeth yn ei le aethom i lawr y grisiau am ein swper. Wedi hynny buom am dro i weld Eglwys agored.

Bore dydd Iau codasom am wyth o'r gloch ac wedi ymolchi a gwisgo mynd i lawr am frecwast, ac yna aros am y bws oedd i fynd â ni i'r Iseldiroedd. Aros ennyd ar y ffin i sylwi ar y melinau gwynt. Cawsom fynd i mewn i un ohonynt, ar ôl talu, a dringo i fyny grisiau serth nes cyrraedd y brig a gweld rhyw olwynion anferth yn troi o gwmpas. Yna symud ymlaen a dod i le arall lle gwelsom yr hwyliau anferth. Yna allan o'r felin ac yn ein holau i'r bws. Ymhen ugain munud yr oeddem ar ryw ynys yn yr Iseldiroedd. Yno gwelsom bentref o fodelau. Cawsom fynd i'r farchnad lle cafodd Richard a minnau (Glyn) fynd ar y teledu. Teledu i bobl yn yr ysbyty oedd.

Ar ein diwrnod olaf roedd pob athro wedi cael nifer arbennig o blant i ofalu amdanynt. Aethom i Brugge ac yno gwelsom ferched yn brysur yn gwneud 'lace'. Yna cawsom ein cludo i Ostende mewn grwpiau eto. Mewn rhyw siop gwelodd Tim 'Alpine car', ond dywedodd Mr. Gruffydd wrtho am ei adael yno a dod amdano rhyw dro eto. Yna aeth â ni i weld yr Eglwys cyn i'r bws ddod i'n cludo yn ôl i'r gwesty. Wedi cyrraedd yno a chael pryd o fwyd bu'n rhaid cael ein pethau at ei gilydd yn barod i gychwyn fore Sadwrn. Wedi swper cawsom chwarae gemau hyd ddeg o'r gloch. Yna bu raid i bawb fynd i'r gwely. Buom yn cadw stŵr am tua dwyawr, ond yn fuan wedyn roeddym i gyd yn cysgu yn dawel.

Dydd Sadwrn cododd pawb am saith er mwyn bod yn barod i gychwyn am wyth. Ar y ffordd adref ni ddigwyddodd dim o bwys. Aethom drwy Lundain ac yr oedd llawer o bethau i'w gweld yno. Yna daethom yn sydyn iawn yn ôl i Lanrug. Yma roedd ein rhieni yn disgwyl amdanom ac yn falch o'n gweld wedi dod yn ôl yn ddiogel. Roeddem wedi blino yn lân, ond wedi mwynhau ein taith yn fawr iawn.

Louise Glyn
Siân Noel
Karen Jonathan


CYNGOR SIR GWYNEDD COUNTY COUNCIL

ADRAN GWASANAETH IEUENCTID

**Gwahoddir ceisiadau am swyddi Arweinyddion Ieuenctid Rhan-amser yn yr ardaloedd canlynol :-**

**BETHEL, DEINIOLEN.**

**Ffurflenni cais a manylion pellach oddiwrth Adran Gwasanaeth Ieuenctid, Swyddfa Addysg, Stryd y Castell, CAERNARFON.**

**Dyddiad cau 15 Medi, 1978.**

# Dyddiadur y Mis

MEDI 1, Gwener
PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
MEDI 2, Sadwrn.
BETHEL: Gwibdaith i Sw Caer.
MEDI 4, Llun
LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. A.G.M. YR ARDAL: Cymdeithas Eryri – Consort Seland Newydd yn Theatr Seilo, Caernarfon am 7.30. DEINIOLEN: Sefydliad y Merched yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
MEDI 5, Mawrth
LLANBERIS: Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8.00.
MEDI 6, Mercher
DEINIOLEN: Cyfarfod Pregethu yng Nghapel Ebeneser am 7.00. LLANBERIS: Y Gymdeithas Ddrama – Pwyllgor agoriadol y tymor yn Festri Capel Preswylfa am 7.30.
MEDI 7, Iau
WAUNFAWR: Sefydliad y Merched. LLANRUG: Gwibdaith Clwb yr Henoed i Landudno.
MEDI 8, Gwener
YR ARDAL: Cymdeithas Eryri – 'Gary Kerr a Harmon Lewis' yn Theatr Seilo am 7.30. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. DEINIOLEN: Y Seindorf – Ffair Hydref yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00. LLANBERIS: Disco dan nawdd Pwyllgor y 'Steddfod yn y Ganolfan. Clwb yr Henoed.
MEDI 9, Sadwrn
LLANRUG: Disco dan nawdd y Clwb Pêl-droed yng Ngwesty'r Castell, Bangor.
MEDI 11, Llun
LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
MEDI 13, Mercher
CWM-Y-GLO: Gyrfa Chwist am 7.30. BETHEL: Merched y Wawr, Cyngerdd gan Barti Glannau Menai. LLANBERIS: Y Gymdeithas Ddrama. Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
MEDI 14, Iau
LLANBERIS: Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan. DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.
MEDI 15, Gwener
PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
MEDI 18, Llun
LLANRUG: Dosbarth Nos W.E.A. – 'Problemau Cymdeithasol a Gwleidyddol Cyfoes' gyda Dr. Cyril Parry yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
MEDI 19, Mawrth
DEINIOLEN: Dosbarth Nos W.E.A. – 'Hanes Lleol' gyda Mr. Rhodri Prys Jones, B.A. yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
MEDI 20, Mercher
CWM-Y-GLO: Merched y Wawr – Noson yng nghwmni'r Parch. John Alun Roberts. LLANBERIS: Clwb y Mamau. Y Gymdeithas Ddrama.
MEDI 21, Iau
LLANBERIS: Disco dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan.
MEDI 22, Gwener
PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. LLANRUG: Twmpath Dawns a Bwffe yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon. LLANBERIS: Clwb yr Henoed.
MEDI 25, Llun
PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen. CAERNARFON: Dosbarth Nos W.E.A. – 'Hanes Lleol' gyda Miss Mat Pritchard, B.A. yn Ysgol Segontium am 7.00. LLANRUG: Dosbarth Nos W.E.A. yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Peldroed yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth Nos W.E.A. – 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' gyda Mrs Barbara Mansel Owen, A.T.D. yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
MEDI 26, Mawrth
PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen. LLANBERIS: 'Beauty Therapy' yng Ngwesty Dolbadarn. Yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod. DEINIOLEN: Dosbarth Nos W.E.A. yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
MEDI 27, Mercher
LLANBERIS: Y Gymdeithas Ddrama. Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. CWM-Y-GLO: Gyrfa Chwist. BRYNREFAIL: Dosbarth Nos W.E.A. – 'Beirdd ein Canrif' gyda Mr Cledwyn Jones, B.A. yn Ysgoldy Capel Brynrefail am 7.30.
MEDI 28, Iau
WAUNFAWR: Merched y Wawr. LLANBERIS: Sefydliad y Merched.
MEDI 29, Gwener.
PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. WAUNFAWR: Dosbarth Nos W.E.A. 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' gyda Mrs Barbara Mansel Owen, A.T.D. yn yr Ysgol Gynradd am 7.00.
MEDI 30, Sadwrn
YR ARDAL: Diwrnod Agored yng Ngwaith Trydan Dinorwig.

## YN EISIAU

OFFER CHWARAEON PLANT ar gyfer yr ardd, megis siglen, ffrâm ddringo ac ati. Caernarfon 3678.

**Y PARCH. GEORGE BREWER**

**A'r Eco yn barod i fynd i'r wasg daeth y newyddion brawychus am farwolaeth y Parch. George Brewer, y Felinheli, mewn damwain ym Môn. Mae ein cydymdeimlad fel ardal gyda'r teulu a'r Eglwys yn eu colled.**

## AR WERTH.

2 GLWB GOLFF (3 'Iron' Dunlop a 7 'Iron' Slazenger) mewn cyflwr da iawn. £15.

SOL INVICTUS DETECTOR (Metal Detector) 6 wythnos oed. £18 neu'r cynnig agosaf. Ffôn: Llanberis 471 (unrhyw amser).

BEIC 5 GER, addas i unrhyw un o 13 i fyny, a hefyd BEIC DYN, 3 ger. Ymholiadau – Ffôn: Y Felinheli 670861.

**DIOLCH AM GYDYMDEIMLAD**

**Dymuna Morfudd, Rhian a Gerallt, Gwyrfai, Llangefni a Gwilym, Mary ac Ann ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd, y llu o gardiau, a'r rhoddion tuag at Ymchwil y Galon a Chapel Smyrna, a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth sydyn o golli Ernest – gŵr, tad a brawd hynod o annwyl.**

**ARCHEBWCH PAIS!**
**CYLCHGRAWN CYFFROUS NEWYDD I FERCHED CYMRU**

Dymunaf dderbyn 8 rhifyn o Pais (Awst '78 i Mawrth '79) am £3.20 (cludiad am ddim).

Enw.............................................

.....................................................
(llythrennau bras)

Cyfeiriad........................................

.....................................................

.....................................................

.....................................................

Dychwelwch i: Ysgrifennydd Tanysgrifio (Pais), Elernion, 24 Caeau Gleision, Rhiwlas, Bangor.

Sieciau ac Archebion Post yn daladwy i: 'Cyfrif Cylchgrawn Pais'

**CYMDEITHAS DDRAMA LLANBERIS**

Cynhelir cyfarfod cyntaf am y flwyddyn 1978-79 nos Fercher, Medi 6 yn Festri Preswylfa am 7.30. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymaelodi a'r cwmni.

## TEISEN RIGARUG



Dyma lun o deisen wedi'i gwneud ar gyfer Cronfa Rigarug gan Janet Wyn Jones o Lanberis. Cafodd Janet ei hyfforddi yng Ngholeg Llandrillo ac mae'n gweithio ar hyn o bryd fel cogyddes gyda'r BBC ym Mangor. Ar y deisen ceir copi o'r arfbais sydd ar blât dathlu Eisteddfod Caernarfon.

## Caseg Fuddugol



Llun caseg fuddugol Mr W. H. Griffith, Cros Waun, Penisarwaun.


## YN EISIAU
## Tir Adeiladu

Gyda Chaniatâd Cynllunio
neu dir yn debygol o gael caniatâd.
I fyny at 4 erw yng Ngwynedd neu Clwyd.

CYSYLLTWCH Â: CYMRODYR HIRAETHOG,
LLYS HIRAETHOG,
LLAIN Y CAPELI,
DINBYCH.
*(Ffôn: Dinbych 3853)*



STORFA
Mace

**O.R. & M. PARRY**

**Sgwâr Llanrug**

**Caernarfon 2790**

**Perchnogion newydd, ond gwasanaeth a chroeso cystal ag erioed !**

# ATGOFION AM EDMONTON

**'Sgwn i faint ohonoch fu ynghlwm wrth eich setiau teledu dros gyfnod Gemau'r Gymanwlad yng Nghanada y mis diwethaf? Mae'n rhaid i mi gyfaddef na fu hynt a helynt y cystadleuwyr o fawr ddiddordeb i mi; methais â meithrin fawr o ddiddordeb hyd yn oed yn nhîm Cymru, a bellach aeth y cyfan bron yn angof, ac eithrio'r wefr o weld y Ddraig yn chwifio i gyfeiliant ein Hanthem Genedlaethol ar ddau achlysur arbennig. Yn wir, ac yn anffodus, fel y digwyddodd pethau, ni wyddwn i sicrwydd pa sawl medal a enillwyd gan Gymru.**

**Mentrais, er hynny, gan fod cysylltiadau agos ag Eco'r Wyddfa a phrofiad personol o'r Gemau ganddo, ofyn i Ieuan Owen baratoi ychydig o atgofion am Edmonton ar ein cyfer. 'Does dim angen cyflwyno Ieuan i ddarllenwyr yr Eco; cefais y fraint droeon o gofnodi ei lwyddiant ym myd codi pwysau ar y dudalen hon, ac mae'n nodweddiadol o'i gymeriad ei fod wedi tynnu llun bron bawb a phopeth yng Nghanada ond heb ofyn i neb bwyntio'r camera ato ef.**

**Trosodd at Ieuan, felly, gan ddiolch iddo am ei gyfraniad.**

Rai wythnosau'n ôl bellach, cefais yr anrhydedd o'm dewis i gynrychioli Cymru unwaith eto yn Chwaraeon y Gymanwlad, y tro hwn yn Edmonton, Alberta, Canada. Dyma'r pumed tro i mi gystadlu yn y chwaraeon hyn, yn yr Adran Codi Pwysau. 'Rwy'n cofio'n dda y tro cyntaf imi gael fy newis, a theithio'r holl ffordd o glwb bach codi pwysau Llanrug i Perth, Awstralia yn 1962. Dyna'r tro cyntaf imi fynd mewn awyren, ar daith a gymerai rhyw 27 awr.

Mwynheais fy hun gymaint y pryd hynny nes imi wneud addewid y byddwn yn y Gemau nesaf, a'r nesaf, a'r nesaf, ac felyna mae hi wedi bod ar hyd y blynyddoedd, oherwydd mae gemau'r Gymanwlad yn hollol wahanol i'r rhai eraill y bûm ynddynt. Mae rhyw awyrgylch gartrefol na chewch chi mono mewn Gemau Olympaidd, efallai am eu bod yn llawer llai eu maint ac yn llawer haws gwneud ffrindiau ynddynt. Dyna pam y gelwir Chwaraeon y Gymanwlad yn 'The Friendly Games', a byddaf wrth fy modd yn cael ail-gwrdd â'm ffrindiau o bob cwr o'r Gymanwlad bob pedair blynedd.

Taith weddol fer, o 8 awr, oedd gennym i Edmonton mewn Boeing 747, neu'r Jumbo Jet fel y gelwir hi — awyren anferth sy'n dal tua 400 o bobl. Cawsom daith esmwyth iawn ynddi, gan gyrraedd Edmonton yn ddiogel, yng nghanol haul braf. 'Roedd bws arbennig yn ein disgwyl i'n cludo dros ran olaf y daith i bentref y Chwaraeon, 'The Games Village'. Y pentref y tro hwn oedd 'Halls of Residence,' Coleg Alberta yn Edmonton, ac yno y buom yn ymgartrefu'n hapus am dair wythnos. 'Roedd ffens uchel o amgylch y pentref a'r heddlu lleol allan yn gryf yn cadw golwg arni, ac yn cadw'r cyhoedd allan. 'Roedd yn rhaid i'r cyhoedd gael *pass* arbennig i ymweld â'r pentref. 'Roeddwn 'nawr yn byw gyda'r athletwyr gorau o bob cwr o'r Gymanwlad, a'r pentref oedd y lle gorau i ddod ar draws yr enwau mwyaf adnabyddus ym myd chwaraeon. Fe gwrddais â Brendan Foster mewn lifft, a bu bron imi fynd ar draws Sonia Lannaman ar fy meic, ond y cantîn oedd y man gorau i'w cyfarfod. Yno 'roedd pawb yn cymysgu â'i gilydd tra'n bwyta'r bwyd blasus oedd ar gael 24 awr bob dydd. Gallech eistedd wrth ochr Sharon Davies, sy'n nofio dros Loegr neu rywun tebyg ei olwg i ganibal o Papua, New Guinea. Ond trwy drugaredd, mae pawb yn deall Saesneg, ac fe gefais amser difyr yn holi a sgwrsio â phobl o bob lliw. Un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn y pentref oedd fy hen ffrind o'r byd codi pwysau, — Precious McKensie, y tro hwn yn ennill y fedal aur am y bedwaredd waith yn olynol.



*Precious McKensie a Jeff Bryce, enillydd y Fedal Efydd wrth ei ochr.*


Gan nad yw ond 4'6" 'roedd pawb am ei godi uwchben i dynnu ei lun. Cefais luniau agos hefyd o'r teulu Brenhinol. Daeth y Frenhines a Dug Caeredin ar ymweliad â'r pentref i gyfarfod rhai o'r cystadleuwyr, a'r trefnwyr. 'Roedd camerâu ym mhobman yn manteisio ar y cyfle, a minnau yn eu plith. Tra'n mesur y golau'n ofalus a gosod y camera, cefais fynd reit agos at y Frenhines, a chlic, ac wrth imi symud oddi wrthi es yn syth ar draws y Tywysog Andrew, ac fel Cymro da, fe ymddiheurais iddo. Hefyd cefais lun o Brif Weinidog Canada, Pierre Trudeau yntau hefyd yn ymweld â'r pentref. Oedd, 'roedd digon o wynebau adnabyddus i'w gweld yno, ac i un sy'n ymddiddori mewn tynnu lluniau, 'roeddynt yn fy nghadw'n reit brysur.

Mae Edmonton ei hun yn ddinas fodern a phrydferth iawn, gyda nifer o barciau hardd o'i chwmpas. Mae'r North Sashkatchewan River yn rhedeg yn dawel drwyddi ac mae siopau anferth yno, fel siop yr 'Hudson Bay Company', sy'n 8 llawr o uchder. Yn y siopau hyn fe gwrddais â llawer o'r Cymry sy'n byw yno, y rhan fwyaf ohonynt o'r De, ond fe gwrddais â rhai o Gaernarfon, Pwllheli a Llangefni. 'Roedd y bobol o Gaernarfon yn patro rêl cofis, er iddynt fyw yng Nghanada ers 12 mlynedd.

Ond nid cwrdd â'r adnabyddus oedd pwrpas fy ymweliad, ond cynrychioli Cymru mewn codi pwysau, ac felly, wrth gwrs, y treuliais y rhan fwyaf o'm hamser yno — trwy ymarfer a chystadlu a helpu ychydig ar aelodau eraill Tîm Codi Pwysau Cymru. 'Roedd y gystadleuaeth codi pwysau yn mynd ymlaen yn yr Edmonton Jubilee Auditorium, a dyma'r man cystadlu gorau y bûm ynddo mewn ugain mlynedd o godi pwysau. Neuadd newydd sbon, wedi ei hadeiladu yn arbennig ar gyfer cyngherddau ac operâu. Ni chefais i lawer o hwyl arni y tro yma ond llwyddodd y tîm i gipio medal efydd ac aur. Hyfrydwch mawr oedd gweld y Ddraig ar y brig a'r band yn chwarae 'Hen Wlad Fy Nhadau' pan enillodd John Burns o Bort Talbot y Fedal Aur.

Cefais amser ardderchog yno, a'r tywydd braf yn help mawr i lwyddiant y Chwaraeon, sy'n cael eu cyfri gan lawer fel y Gemau Cymanwlad gorau sydd wedi bod erioed. Cytunaf â hynny, ac fe wiboddd y tair wythnos yn rhy gyflym o lawer. Hoffwn fod wedi gweld llawer mwy o wlad Canada, ond mae eisiau rhywbeth fel tair blynedd i wneud hynny, dybiwn i, oherwydd maint y wlad. Felly, rhaid oedd dweud ffarwel wrth Ganada.

Mae'n debyg mai dyma'r tro olaf y byddaf i'n cystadlu yn Chwaraeon y Gymanwlad, wel, yn yr Adran Codi Pwysau beth bynnag. Cyhoeddodd Precious Mckensie ei fod am droi ei law at 'bowls', ac efallai y dylwn innau ystyried yr un peth ac ymadael â'r pwysau yng Nghlwb Bach Llanrug a thyfu gwair ynddo. Rhywun eisiau prynu pwysau?



*John Burns — enillodd Fedal Aur i Gymru.*

## Pêl-droed

Mae'r seibiant rhwng diwedd un tymor pêl-droed a dechrau'r nesaf yn lleihau bob blwyddyn, a llwyddodd Llanrug i fylchu'r gwyliau mewn ffordd sy'n darogan tymor llwyddiannus iddynt eto.

Yn eu gêm gyntaf, yn erbyn Biwmares, drwy ennill Tarian Marconi (rhwng pencampwyr Cynghreiriau Môn ac Arfon) dechreuwyd ar ddechrau'r tymor ychwanegu at y pentwr o dlysau a gasglwyd ganddynt y tymor diwethaf. Tair gôl i ddim oedd y sgôr, gyda Vernon Lloyd, blaenwr sydd â blynyddoedd o brofiad ganddo, yn sgorio ei gôl gyntaf i'r Clwb. Ef yw'r unig wyneb newydd yn y garfan eleni.

Yn y gêm gynghrair gyntaf, profodd eto ei werth gan sgorio bedair gwaith yn y fuddugoliaeth o 7 gôl i 1 yn erbyn Bangor Athletics. Dic Owen fu'n gyfrifol am y tair arall, a chredaf y bydd cyfuno'r ddau yma yn peri ambell gur ym mhen amddiffynwyr y Gynghrair yn ystod y tymor. Hwy fu'n gyfrifol, drwy sgorio un gôl yr un, am drechu Llanberis yn eu hail gêm, a'r Sadwrn diwethaf, ym Mhwllheli, oedd y tro cyntaf i neb arall o'r tîm 'gael ei enw yn y papur' yng ngemau'r gynghrair.

Peter Roberts yn sgorio 2 gôl i roi Llanrug ar y blaen cyn yr egwyl, ac yna Gwynfor Owen, Vernon a Dic yn sgorio gôl yr un i sicrhau buddugoliaeth o 5 gôl i ddim a chadw Llanrug ar ben y gynghrair gyda 14 gôl yn erbyn 1.

Dechrau digon siomedig i Lanberis, sydd â dau neu dri o wynebau newydd yn eu carfan. Colli o 4 gôl i 1 fu eu hanes yng ngêm gynta'r tymor yn Nefyn, a cholli eto yn erbyn Llanrug o 2 gôl i ddim. 'Roedd digon o redeg yn y tîm, ond fawr o effeithiolrwydd.

Daeth eu pwyntiau cyntaf y Sadwrn diwethaf yn erbyn Hirael: Gwilym Williams (2), Gareth Williams a Wyn Evans yn sicrhau buddugoliaeth o 4-0 iddynt.

### LAL YN ÔL GYDA LLANBÊR

Dewiswyd swyddogion Clwb Pêl-droed Llanberis fel a ganlyn: I. Ellis Jones (Llywydd); Meirion Griffith (Cadeirydd); Len Jones (Is-gadeirydd); Eurwyn Thomas (Ysgrifennydd); Gwilym Owen (Hyrwyddwr); Arfon Phillips (Trysorydd); Gwilym Owen (Cymorth Cyntaf).

Fe ddewiswyd Lal Jones a Raymond Harding yn Rheolwyr am y tymor. Aelodau'r pwyllgor fydd: Gwyn Williams, Elwyn Davies, John Williams, Heddwyn Jones, Gareth Jones, Robin Jones. Os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r pwyllgor, a fuasent gystal â chysylltu â'r Ysgrifennydd, Mr. Eurwyn Thomas, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis, neu unrhyw un o'r pwyllgor?

Mae'r rhai canlynol wedi arwyddo am y tymor hwn: Gwilym Williams, John Pritchard, Gareth Williams, Raymond Harding, Selwyn Allsup, Iwan Evans, Kelvin Jones, Gwilym Williams, Wyn Evans, Einion Holland, Alan John Williams, Keith Davies, Islwyn Hughes, Seimon Higginbottom, Hugh Griffith, John Ryan, Philip Holland.

Eurwyn Thomas fydd yn gyfrifol am adroddiadau hynt a helynt tîm Llanbêr yn y dyfodol. Ein diolch iddo am ymgymeryd â'r gwaith ac i Lal am ei gyfraniadau tros y ddwy flynedd diwethaf. Bydd Dafydd W. Thomas yn parhau â'r gwaith mewn cysylltiad â thim Llanrug